PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY 1872

# PROM

Ysgol Gwyddor Filfeddygol Aberystwyth yn mynd o *nerth i nerth*



*Gwobr y Frenhines* am ymchwil arloesol

Y Brifysgol yn llongyfarch cyn-fyfyriwr ar ei ethol yn *Brif Weinidog*

## PROM 32

Mae'n bleser rhannu rhifyn eleni o'n cylchgrawn blynyddol PROM gyda'n cymuned wych o gyn-fyfyrwyr, yn dilyn blwyddyn arall o brysurdeb a datblygiadau.

Mae wedi bod yn bleser ac yn fraint cyfarfod â chymaint ohonoch yn bersonol, a chynrychioli sefydliad sydd â chymaint o uchelgais dros ein cymunedau, yma yn Aberystwyth ac mewn rhwydweithiau sy'n ymestyn ar draws y byd.

Yn y rhifyn hwn, rydym yn cyflwyno'r newyddion a'r datblygiadau diweddaraf i chi o Aber, gan dynnu sylw at ymchwil a straeon allweddol o bob rhan o'r campws.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn manteisio i'r eithaf ar y rhwydwaith hwn o gyn-fyfyrwyr, gan gynnwys ein cylchlythyr misol poblogaidd – gweler 'Cadw mewn cysylltiad' isod.

Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni
alumni@aber.ac.uk

## Cadw mewn cysylltiad

+44 (0) 1970 62 1568
alumni@aber.ac.uk
alumni.aber.ac.uk/cy/login

Cadwch mewn cysylltiad a diweddarwch eich manylion i sicrhau nad ydych yn colli allan ar y newyddion a'r digwyddiadau diweddaraf.

## Polisi Preifatrwydd

Mae ein datganiad preifatrwydd yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am y data a gedwir gennym amdanoch chi, sut y caiff ei gasglu a'i brosesu, yr hyn a wnawn gyda'r data hwnnw, a'ch hawliau o dan reoliadau GDPR y DU. Gallwch ddarllen y datganiad preifatrwydd yn llawn yma bit.ly/3SfJWel



# Croeso

Mae'n dda cael y cyfle hwn i gyflwyno fy hun fel Is-Ganghellor newydd Prifysgol Aberystwyth.

Rydw i, fel chithau, yn un o gyn-fyfyrwyr y sefydliad gwych hwn, a thros y blynyddoedd rwyf wedi mwynhau cadw mewn cysylltiad â newyddion y Brifysgol drwy'r cylchgrawn hwn.

Symudais i Aberystwyth 33 mlynedd yn ôl i fyw ac i weithio, ac ar ôl ychydig flynyddoedd, cofrestrais yn y Brifysgol fel myfyriwr hŷn. Wrth astudio ar gyfer fy ngradd ac yna fy PhD yn yr Adran Gyfrifiadureg, ni feddyliais erioed y byddwn yn ôl ymhen blynyddoedd yn Is-Ganghellor.

Mae'r sefydliad hwn, a thref Aberystwyth, yn annwyl iawn i mi, ac rwy'n teimlo'n freintiedig o gael y cyfle i arwain y Brifysgol hon sy'n golygu cymaint i mi, a gwn ei bod yn golygu cymaint i lawer ohonoch chi hefyd.

Mae'r Brifysgol hon wedi chwarae rhan bwysig iawn yn fy natblygiad fy hun yn y byd academaidd. Ers i mi orffen fy astudiaethau yma, rwyf wedi gweithio mewn rolau academaidd ac yn ddiweddarach mewn rolau gweithredol uwch mewn prifysgolion yng Nghaint, Efrog ac yn fwyaf diweddar, yn Sunderland. O ran fy ngwaith academaidd, rwy'n ymchwilydd rhyngddisgyblaethol, yn gweithio ar draws meysydd Cyfrifiadureg, peirianneg a'r gwyddorau biolegol, yn arbennig imiwnoleg, ond hyfforddais fel cyfrifiadurwr ac roeddwn bob amser yn falch iawn o gael cyfle i ddod yn ôl yma i Aber fel cyn-fyfyriwr, yn rhannol oherwydd y cysylltiadau oedd gennyf o hyd â chydweithwyr yn yr Adran Gyfrifiadureg.

Rwyf wedi treulio'r wythnosau cyntaf yn fy swydd newydd yn dod i adnabod Prifysgol Aberystwyth fel y mae heddiw. Un peth sy'n amlwg iawn yw'r ymdeimlad gwirioneddol o falchder ac ymrwymiad a rennir gan staff a myfyrwyr, a'r teimlad o gyd-berchnogaeth o'r hyn a wnawn yma.

Mae hwn yn gyfnod anodd ym myd addysg uwch ac mi wn fod ein Prifysgol ni, ynghyd â phrifysgolion eraill y DU, yn wynebu heriau. Ochr yn ochr â'r heriau hyn, fodd bynnag, mae yna gyfleoedd i'w datblygu, llwybrau uchelgeisiol i'w dilyn, a llwyddiannau i'w dathlu ac ymfalchïo ynddynt.

Nid gormodiaith yw dweud bod Prifysgol Aberystwyth yn gweddnewid bywydau. Mae'r addysgu a'r ymchwil a wneir yma yn wirioneddol drawsnewidiol, gan arwain at gyfleoedd newydd, datblygu sgiliau hanfodol, a sicrhau gwelliannau i'r gymdeithas ehangach.

Yn ddiweddar, cefais y pleser o gael mynd gyda grŵp o'n parasitolegwyr blaenllaw i Balas Buckingham i dderbyn Gwobr y Frenhines am Addysg Uwch i gydnabod eu hymchwil arloesol i lyngyr lledog parasitig. Mae'r rhifyn hwn o PROM hefyd yn sôn am sut mae ymchwil Prifysgol Aberystwyth yn arwain gwaith i chwilio am fywyd ar y blaned Mawrth, yn cynyddu ein dealltwriaeth o esblygiad dynol, yn ymdrin ag atal afiechyd sy'n gysylltiedig ag oedran, ac yn astudio sut cafodd ffoaduriaid eu trin yn y gorffennol er mwyn gwella bywydau plant sy'n ffoi rhag gwrthdaro heddiw.

Gallwch hefyd ddarllen am y cynnydd cyffrous yn ein gwaith uchelgeisiol o ailddatblygu'r Hen Goleg. Mae'r sgaffaldiau helaeth yn gampwaith peirianyddol hynod ynddynt eu hunain, ond nawr wrth i'r gwaith ddechrau ar y fynedfa gyhoeddus a'r atriwm newydd, mae'r adeilad eiconig yn parhau i ddatgelu ei gyfrinachau - megis y darganfyddiad diweddar o weddillion llosg y tân enfawr yn 1885.

Mae cyfle hefyd i ddysgu mwy am Ganolfan Ddeialog newydd y Brifysgol, sy'n unigryw yng Nghymru, ac sy'n ymdrechu i feithrin cysylltiadau a chydweithrediad rhwng ymchwilwyr a'r byd ehangach er mwyn cyfnewid gwybodaeth er budd pawb.

Yn olaf, gallwch ddarllen am rai o'r ffyrdd y mae aelodau o gymuned y cyn-fyfyrwyr yn parhau i wneud gwahaniaeth yn Aber – trwy helpu i ariannu ffug-glinig milfeddygol ar Gampws Penglais, trefnu hedfan rhai o fyfyrwyr yr adran ffilm a theledu i un o brif wyliau ffilm y byd, rhoi cyfle i fentergarwyr o blith y myfyrwyr i wireddu eu busnesau newydd, a sefydlu cronfa newydd o bwys i helpu i ariannu cyfleoedd i fyfyrwyr astudio yn Ewrop.

Rwy'n gobeithio cwrdd â mwy o gyd-gyn-fyfyrwyr yn ystod y misoedd nesaf, ac edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i helpu i hyrwyddo llwyddiant y sefydliad hwn sydd mor annwyl ac uchel ei barch.


**Yr Athro Jon Timmis**
**Is-Ganghellor**

# Cynnwys


2 Newyddion y Brifysgol
6 Ysgol Gwyddor Filfeddygol
8 Yr Hen Goleg
10 Y Ganolfan Ddeialog
13 Joy Welch
14 ArloesiAber
16 Cyfweliad – Elgan Davies
20 Croeso Cyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Alumni
22 Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu yn dathlu 50 mlynedd
24 Penodiadau, Anrhydeddau a Chyflawniadau
Er Cof
26 Digwyddiadau ac aduniadau cyn-fyfyrwyr
28 Y Gronfa Archifau









PROM 32 | Cylchgrawn Prifysgol Aberystwyth

**Cyhoeddwyd gan:** Prifysgol Aberystwyth

**Dyluniwyd gan:** Dyfan Williams

**Clawr:** Ysgol Gwyddor Filfeddygol Aberystwyth (t4)

Myfyrwyr gyda llo



Barn yr awduron unigol a fynegir ac nid ydynt yn cynrychioli'r Brifysgol oni nodir hynny. Er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau cywirdeb a dibynadwyedd y deunydd a gyhoeddir, nid yw'r cyhoeddwyr yn derbyn dim cyfrifoldeb am honiadau a wneir gan gyfranwyr.

## Elain Gwynedd

**Swyddog Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA**



Mae hi wir wedi bod yn bleser cael bod yn Swyddog Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA hyd yma, ac rydyn ni wedi cael tymor cyntaf llwyddiannus dros ben. Yr uchafbwynt yn sicr i mi oedd y Ddawns Ryng-gol ym mis Tachwedd wrth inni groesawu dros 500 o fyfyrwyr Cymraeg a rhai o fandiau gorau'r Sîn Roc Gymraeg Tew Tew Tennau, Dros Dro, Fleur De Lys a Candelas yma i Aberystwyth. Ynghyd â threfnu nifer helaeth o ddigwyddiadau ar gyfer aelodau UMCA, gan gynnwys Sŵn, Paned a Sgwrs, Gig Dydd Miwsig Cymru a noson ffilm Diwrnod Hawliau'r Gymraeg, rwyf hefyd wedi cael y fraint o eistedd ar rai o bwyllgorau pwysicaf y Brifysgol, gan gynnwys y Cyngor a'r Senedd. Mae'r profiad hwn yn sicr wedi bod yn un gwerthfawr er mwyn cynrychioli llais myfyrwyr Cymraeg, a gwarchod modiwlau cyfrwng Cymraeg, sef un o fy mhrif flaenoriaethau yn ystod fy nhymor fel Swyddog Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA.

Heb os, mae'r flwyddyn academaidd hon yn un eithriadol o gyffrous i UMCA, a hynny am ein bod yn dathlu hanner canrif ers sefydlu'r Undeb Gymraeg. Un o fy mhrif swyddogaethau yn ystod y misoedd nesaf felly yw trefnu'r dathliadau a fydd yn cymryd lle ar y 15fed o Fehefin yma yn Aberystwyth. Oes oes gennych unrhyw luniau neu straeon am eich amser yn y Brifysgol, cysylltwch ag umca@aber.ac.uk. Edrychaf ymlaen at groesawu aelodau presennol a chyn-aelodau UMCA yn ôl i'r dref am benwythnos bythgofiadwy.

## Bayanda Vundamina


**Llywydd yr Undeb**



Profiad anhygoel oedd gweithio gyda myfyrwyr ar y campws eleni ac rwy'n edrych ymlaen at adeiladu ar sylfaen llwyddiannau'r llynedd i greu cymuned well byth i'r myfyrwyr.

Wrth i'r boblogaeth y myfyrwyr rhyngwladol dyfu, un o fy mhrif flaenoriaethau eleni yw sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi, a bod eu llais yn cael ei glywed. Mae symud i wlad newydd yn gallu bod yn frawychus braidd, ac rwyf am sicrhau eu bod yn cael yr holl adnoddau sydd eu hangen arnynt i lwyddo.

Rwyf wedi cynnal ymgyrch gwrth-hiliaeth i addysgu myfyrwyr am bwysigrwydd y 'gwyliedydd gweithredol' er mwyn sefydlu meddylfryd gwrth-hiliol a fydd yn lledaenu i'r gymuned leol. Rwyf wedi cael y fraint o weithio gyda'r Brifysgol ar amryw bwyllgorau, fel y Cyngor a'r Senedd, i sicrhau bod myfyrwyr wrth eu bodd yn byw a bod fel myfyrwyr yma, a byddaf yn gweithio'n galed i sicrhau eu bod yn cael yr holl gefnogaeth angenrheidiol.



## Y Brifysgol yn llongyfarch cyn-fyfyriwr ar ei ethol yn Brif Weinidog

Mae Meri Huws, Cadeirydd Cyngor Prifysgol Aberystwyth, a'r Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth wedi llongyfarch Vaughan Gething, un o raddedigion Aberystwyth, ar ei ethol yn Brif Weinidog.

Graddiodd Vaughan Gething yn y Gyfraith o Brifysgol Aberystwyth ym 1999 a gwasanaethodd fel Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth ac fel Llywydd Undeb Genedlaethol Myfyrwyr Cymru.

Cafodd ei ethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Senedd Cymru bellach) yn 2011 fel yr aelod dros Dde Caerdydd a Phenarth, a gwasanaethodd yn Llywodraeth Cymru fel y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yn ddiweddarach, Gweinidog yr Economi.

Mewn llythyr at y Prif Weinidog, dywedont:

"Mae'n bleser gennym, ar ran Prifysgol Aberystwyth, ddymuno ein llongyfarchiadau cynhesaf i chi ar gael eich ethol i swydd y Prif Weinidog. Fel cyn-fyfyrwyr Aberystwyth ein hunain, gwyddom y bydd eich etholiad yn destun ysbrydoliaeth a balchder mawr i'n myfyrwyr, staff a phawb sy'n gysylltiedig â'r sefydliad hwn. Mae eich



ethol fel y person du cyntaf i'r swydd hon yn foment hanesyddol i'r genedl gyfan ei dathlu.

"Yn y blynyddoedd diwethaf rydym wedi bod yn falch o weithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid lleol i gyflawni datblygiadau pwysig. Er enghraifft, ym maes gofal iechyd, rydym wedi sefydlu ein Canolfan Addysg Gofal Iechyd newydd a dwy radd newydd mewn nyrsio. Ym maes iechyd anifeiliaid, sefydlwyd ein Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Twbercwlosis Buchol (CBTB) i Gymru gyda chefnogaeth y Prif Swyddog Milfeddygol ac mae'n gweithio ochr yn ochr â'n Hysgol Gwyddor Filfeddygol newydd, a agorodd yn 2021.

"Wrth edrych ymlaen, rydym yn awyddus i gryfhau ein cenhadaeth ddinesig ymhellach, gan gynnwys cefnogi agenda sgiliau eich llywodraeth. Dymunwn bob llwyddiant i chi yn eich rôl fel Prif Weinidog."

Vaughan Gething fydd yr ail gyn-fyfyriwr o Brifysgol Aberystwyth i'w ethol i'r rôl. Gwasanaethodd Carwyn Jones, sydd bellach yn Athro yn y Gyfraith ym Mhrifysgol Aberystwyth, fel Prif Weinidog rhwng 2009 a 2018. Graddiodd yn y Gyfraith o Aberystwyth yn 1988.

## Gwobrau a Chanmoliaeth

Enwyd Aberystwyth yn Brifysgol y Flwyddyn yng Nghymru ar gyfer 2024 gan *Ganllaw Prifysgolion Da y Times a'r Sunday Times*.

Dyfarnwyd Gwobr y Frenhines 2023 i'r Brifysgol am ei gwaith arloesol yn helpu i fynd i'r afael ag effaith ddinistriol llyngyr lledog parasitig.

Prifysgol Aberystwyth oedd y Brifysgol Orau yn y Deyrnas Unedig am ei Darlithwyr ac Ansawdd y Dysgu a Bywyd Myfyrwyr yng Ngwobrau Dewisiadau Myfyrwyr WhatUni? 2023

Daeth Prifysgol Aberystwyth i'r brig o blith prifysgolion Cymru am fodlonrwydd myfyrwyr yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2023, safle y mae wedi'i chadw am yr wyth mlynedd diwethaf.

## Gwobr Frenhinol am ymchwil arloesol ym maes parasitoleg



*O'r chwith i'r dde: yr Athro Jon Timmis (Is-Ganghellor), yr Athro Karl Hoffman (Athro Parasitoleg), a'r Gwir Anrhydeddus Arglwydd Thomas o Gwmgïedd (Canghellor)*

Mae Gwobr y Frenhines wedi'i dyfarnu i Brifysgol Aberystwyth am ei gwaith arloesol yn mynd i'r afael ag effaith andwyol llyngyr lledog parasitig.

Cafodd y wobr o fri hon, sy'n rhan o'r system Anrhydeddau Prydeinig, ei chyflwyno gan y Frenhines Camilla mewn seremoni ym Mhalas Buckingham ddydd Iau, 22 Chwefror 2024.

Mae'r wobr yn cydnabod gwaith gwyddonwyr yn Adran Gwyddorau Bywyd y Brifysgol, sy'n arbenigo ar grŵp penodol o lyngyr lledog parasitig sy'n achosi clefydau distrywiol fel Sgistosomiasis mewn pobl a Ffasgiolosis mewn da byw.

Mae Sgistosomiasis yn glefyd trofannol sydd fel rheol yn lledaenu drwy gysylltiad â dŵr croyw wedi'i heintio, gan ladd tua 12,000 o bobl a heintio mwy na 200 miliwn bob blwyddyn.

Mae Ffasgiolosis yn effeithio ar fwy na 300 miliwn o wartheg a 250 miliwn o ddefaid yn fyd-eang, gyda cholledion i'r diwydiant amaeth o dros £2.5 biliwn y flwyddyn.

**Stori lawn:** bit.ly/3w8Z4Cs



*Yr Is-Ganghellor yr Athro Jon Timmis yn derbyn y wobr gan Ei Mawrhydi'r Frenhines ym Mhalas Buckingham*

## Gwyddonwyr Aberystwyth i arwain ar brosiect crwydryn Mawrth



Dr Matt Gunn, Prif Ymchwilydd ar Enfys, y sbectromedr isgoch sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer taith ExoMars, gyda model maint llawn o grwydryn Rosalind Franklin ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Mae gwyddonwyr o Brifysgol Aberystwyth yn arwain ar y gwaith i ddisodli offeryn a wnaed yn Rwsia ar y crwydryn Rosalind Franklin, fel y gellir ei lansio i'r blaned Mawrth yn 2028.

Roedd disgwyl i'r crwydryn, a gafodd ei adeiladu gan Airbus yn Stevenage fel rhan o raglen yr Asiantaeth Ofod Ewropeaidd, gael ei lansio yn 2022 ond diddymwyd y cydweithio gydag asiantaeth ofod Rwsia (Roscosmos) yn dilyn yr ymosodiad anghyfreithlon ar Wcráin.

Bydd y cyllid ychwanegol o £10.7 miliwn gan Asiantaeth Ofod y Deyrnas Gyfunol yn caniatáu i dîm o'r Deyrnas Gyfunol ddatblygu Sbectromedr Isgoch i gymryd lle'r un gafodd ei adeiladu yn Rwsia ar gyfer ExoMars (ISEM) fel y gall y daith adennill ei photensial gwyddonol llawn.

Bydd gwaith ar yr offeryn newydd, Enfys, yn cael ei arwain gan Brifysgol Aberystwyth gyda chefnogaeth gan UCL, STFC RAL Space a Qioptiq Ltd.

Bydd Enfys yn nodi targedau ar wyneb y blaned Mawrth i'w samplu a'u dadansoddi, gan adeiladu ar ddarganfyddiadau gwyddonol taith y crwydryn ar y blaned Mawrth.

Dywedodd Dr Matt Gunn o Brifysgol Aberystwyth, Prif Ymchwilydd ar Enfys:

"Mae hon yn her dechnegol gymhleth sydd â'r potensial i wneud cyfraniad sylweddol at ein gwaith o chwilio am arwyddion o fywyd ar y blaned Mawrth... mae arwain datblygiad un o offerynnau gwyddoniaeth allweddol y daith hon yn destun cryn gyffro i mi. Mae'r buddsoddiad hwn gan Asiantaeth Ofod y Deyrnas Gyfunol hefyd yn gymeradwyaeth enfawr i ansawdd ymchwil y gofod yma ym Mhrifysgol Aberystwyth, a fydd yn effeithio ar ein byd ac eraill am genedlaethau i ddod."

**Stori lawn:** bit.ly/3UvdtTa

## Archeolegwyr yn darganfod strwythur pren hynaf y byd

Hanner miliwn o flynyddoedd yn ôl, yn gynt nag a dybiwyd yn flaenorol, roedd bodau dynol yn adeiladu strwythurau o bren, yn ôl ymchwil Prifysgol Aberystwyth.

Mae'r ymchwil, a gyhoeddwyd yn y cyfnodolyn **Nature**, yn adrodd hanes cloddio pren mewn cyflwr da ar safle archeolegol Rhaeadr Kalambo, Zambia, yn dyddio'n ôl o leiaf 476,000 o flynyddoedd a chyn esblygiad ein rhywogaeth ein hunain, *Homo sapiens*.



Y pren yn cael ei gloddio yn Rhaeadr Kalambo yn Zambia

Cafodd y gwaith arbenigol o ddyddio'r darganfyddiadau ei wneud gan arbenigwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth. Defnyddiwyd technegau dyddio ymoleuedd newydd, sy'n datgelu'r tro diwethaf i fwynau yn y tywod o amgylch y darganfyddiadau ddod i gysylltiad â golau'r haul, i bennu eu hoedran.

Dengys dadansoddiad o doriadau ar y pren gan offer carreg fod y bodau dynol cynnar hyn wedi siapio ac asio dau foncyff mawr i wneud strwythur, sef sylfaen platfform neu ran o annedd yn ôl pob tebyg.

Dyma'r dystiolaeth gynharaf o unrhyw le yn y byd lle mae boncyffion wedi eu trin yn fwriadol i ffitio gyda'i gilydd. Hyd yn hyn, roedd tystiolaeth o ddefnydd dynol o bren yn gyfyngedig i'w ddefnydd ar gyfer gwneud tân, ffyn cloddio a gwaywffyn.

Dywedodd yr Athro Geoff Duller o Brifysgol Aberystwyth:

"O ystyried pa mor hen ydyn nhw, mae rhoi dyddiad ar y darganfyddiadau hyn yn heriol iawn ac fe ddefnyddion ni ddyddio ymoleuedd i wneud hyn. Mae gan y dulliau dyddio newydd hyn oblygiadau pellgyrhaeddol – maen nhw'n ein galluogi i ddyddio llawer ymhellach yn ôl mewn amser, i ddod â safleoedd ynghyd sy'n rhoi cipolwg i ni ar esblygiad dynol."

**Stori lawn:** bit.ly/4aJ2xa5

Credyd: Archif Ffederal yr Almaen.



*Ffoaduriaid ifanc blinedig ar ôl iddynt gyrraedd Harwich (Essex), yn gynnar ar fore 2 Rhagfyr 1938.*

## Kindertransport – gwirioneddau anghysurus wrth graidd cynllun arwrol y rhyfel

Mae llyfr newydd am y cynllun *Kindertransport* gan academydd o Brifysgol Aberystwyth yn datgelu ochr fwy tywyll i'r stori dwymgalon o lwyddiant adeg y rhyfel.

Dros gyfnod o ddeng mis ym 1938-9, daethpwyd ag oddeutu 10,000 o blant ffo Iddewig i'r DU trwy'r Kindertransport i ddianc rhag erledigaeth y Natsïaid. Ni fyddai'r rhan fwyaf ohonynt yn gweld eu rhieni byth eto gan y byddai llawer yn cael eu llofruddio yn yr Holocost.

Yn ei llyfr newydd, 'Kindertransport-What Really Happened', mae'r arbenigwr yr Athro Andrea Hammel yn awgrymu er bod y cynllun Kindertransport yn aml yn cael ei ystyried yn enghraifft gadarnhaol o agwedd ddyngarol ac anhunanol y DU tuag at ffoaduriaid yn y gorffennol, mewn gwirionedd, dylid bod yn fwy beirniadol wrth ystyried ei ganlyniadau.

Gan dynnu sylw at adnoddau gwael gan lywodraeth Prydain, mae'r Athro Hammel yn dadlau bod cynllun *Kindertransport* wedi dibynnu ar roddion elusennol a gwirfoddolwyr. Mae hi hefyd yn nodi bod y llywodraeth wedi llacio rheolau fisa ar gyfer plant yn unig, nid eu rhieni, ac nad oedd y meini prawf dethol yn blaenoriaethu'r achosion mwyaf brys, ond y rhai a oedd yn debygol o wneud y cyfraniad gorau i gymdeithas.

Dywedodd yr Athro Hammel, Cyfarwyddwr y Ganolfan Astudio Symudedd Pobl ym Mhrifysgol Aberystwyth:

"Gallwn ddysgu llawer gan hanes o ran sut y triniwyd ffoaduriaid yn hanesyddol, ac fe allai hynny wneud bywyd yn haws i blant sy'n ffoi rhag ymladd heddiw. Felly mae'n bwysig ein bod yn edrych yn realistig ar fethiannau yn ogystal â llwyddiannau'r Kindertransport."

**Stori lawn:** bit.ly/3U6ruoU

## Ydy te gwyrdd yn gallu atal clefydau cysylltiedig ag oed?

Mae gwyddonwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth yn profi sut y gall maetholion mewn te gwyrdd effeithio ar glefydau sy'n gysylltiedig â heneiddio drwy fonitro gweithgaredd ymennydd pobl.

Bydd yr arbenigwyr bwyd ac ymddygiad yn profi a yw atchwanegiadau sy'n cynnwys blendiau naturiol o ginseng ac olewau omega yn gallu gwella iechyd pobl.

Wrth i ni heneiddio ni all ein cyrff brosesu maetholion o'n diet cystal ac mae hyn yn cyfrannu at rai o'r anawsterau iechyd y gallwn ni eu profi wrth i ni heneiddio.

Mae newidiadau i'n cyrff wrth i ni heneiddio yn cynnwys trafferthion treulio bwyd sydd, yn eu tro, yn gallu ein gwneud yn fwy agored i glefydau, gan gynnwys diabetes a chlefyd cardiofasgwlaidd, ond dirywiad gwybyddol hefyd.

Mae'r astudiaeth yn defnyddio'r cyfleuster EEG (Electroenceffalogram) yn Adran Seicoleg y Brifysgol i fesur a oes unrhyw berthynas rhwng sut mae'r perfedd yn gweithio a gweithgaredd yr ymennydd – y cof ac agweddau amrywiol ar brosesu gwybodaeth yn yr achos hwn.

Dywedodd Dr Amanda Lloyd o Adran y Gwyddorau Bywyd ym Mhrifysgol Aberystwyth:

"Mae gwella iechyd pobl hŷn yn ffocws mawr i lawer o'n gwaith dietegol, iechyd a bwyd y dyfodol yma yn Aberystwyth. Rydyn ni'n gwybod y gall diet wneud gwahaniaeth mawr o ran gwella lles pobl, lleihau salwch ac, yn ei dro, leihau'r pwysau ar ein gwasanaeth iechyd. Rydyn ni'n gwybod y gall cynhyrchion penodol wella'r berthynas rhwng y perfedd a'r ymennydd a bydd yr astudiaeth hon yn edrych i weld a oes gan y cynhyrchion hyn fudd iechyd cyffredinol."

**Stori lawn:**
bit.ly/3JrMEJ2



*Prawf EEG yn Adran Seicoleg Prifysgol Aberystwyth.*

# Ysgol Gwyddor Filfeddygol Aberystwyth

Mae Ysgol Gwyddor Filfeddygol Aberystwyth bellach yn dair oed ac yn mynd o nerth i nerth. Gwireddwyd breuddwyd yn 2021 pan ddechreuodd y garfan gyntaf o fyfyrwyr milfeddygol eu gradd BVSc, diolch i gydweithrediad unigryw rhwng Prifysgol Aberystwyth a'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol (RVC). Yn dilyn blynyddoedd o gynllunio a gwaith caled gan nifer fawr o bobl, datblygwyd rhaglen lle mae myfyrwyr yn treulio eu dwy flynedd gyntaf yn Aberystwyth a'r rhan fwyaf o'r tair blynedd ganlynol yn yr RVC yn Llundain. Felly, mae myfyrwyr yn cael y gorau o'r ddau fyd: dechrau mewn prifysgol fach yng nghefn gwlad Cymru sydd â chefndir cryf mewn amaethyddiaeth a phrofiad myfyrwyr cyn symud i ysgol filfeddygaeth sy'n gyson yn cael ei dyfarnu ymhlith y gorau yn y byd.



*Yr Athro Darrell Abernethy – Pennaeth Ysgol Gwyddor Filfeddygol Aberystwyth*

Mae blynyddoedd cyntaf y cwrs wedi canolbwyntio ar sefydlu'r rhaglen addysgu, cynorthwyo myfyrwyr i drefnu'r "AHEMS" – profiad gwaith ar ffermydd a sefydliadau anifeiliaid – a chwblhau'r camau hanfodol nesaf yn natblygiad yr ysgol. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliad llwyddiannus gan ein corff achredu (Coleg Brenhinol y Milfeddygon) yng nghanol 2023, ein carfan gyntaf o fyfyrwyr yn ymgartrefu'n dda yn yr RVC o fis Medi 2023, a chwblhau rhaglen newydd – nyrsio milfeddygol - a fydd yn dechrau ym mis Medi 2024.

Daw staff addysgu'r Ysgol o gefndiroedd amrywiol gan gynnwys addysgu, ymchwil, ymarfer clinigol a diwydiant. Rydym yn gweithio'n agos gyda gwyddonwyr a gweinyddwyr yn ein rhiant-adran, Adran y Gwyddorau Bywyd, ac rydym yn cael cefnogaeth gadarn gan filfeddygfeydd lleol a llawer o filfeddygon ledled Cymru. Rydym wedi penodi darlithwyr ac athrawon er anrhydedd sy'n darparu gwybodaeth werthfawr ac yn cyfrannu at yr addysgu, a chaiff arbenigwyr allanol eu recriwtio pan fo angen. Mae'n amlwg felly bod ein myfyrwyr yn elwa'n fawr ar amrywiaeth gyfoethog o fewnbynnau sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i staff yr ysgol filfeddygol.

A beth am y myfyrwyr milfeddygol? Maen nhw yr un mor amrywiol, gyda thua hanner y garfan bob blwyddyn o Gymru a'r gweddill yn dod o Loegr yn bennaf, er eleni mae gennym sawl un o'r tu allan i'r DU. Roedd tua hanner pob dosbarth yn gwneud cais yn uniongyrchol o'r ysgol tra bod y gweddill eisoes wedi cwblhau gradd mewn gwyddoniaeth. Blaenoriaeth allweddol oedd sicrhau bod ein myfyrwyr yn trosglwyddo'n hwylus i'r RVC yn eu trydedd flwyddyn; i'r diben hwn rydym yn ymdrechu i alinio ein rhaglen ag un yr RVC, gyda nodau addysgu tebyg ond cynnwys ychydig yn wahanol sy'n cyd-fynd â chryfderau Aberystwyth. Hyd yn hyn, mae'n ymddangos bod hyn wedi gweithio – mae adborth gan ein myfyrwyr BVSc 3 wedi bod yn gadarnhaol; maen nhw wedi addasu'n dda ar y cyfan ac wedi pasio eu hasesiadau cyntaf - ffiw! Byddwn yn eu gweld eto pan fyddant yn dychwelyd





yn eu pedwaredd a'u pumed flwyddyn ar gyfer hyfforddiant clinigol a lleoliadau grŵp bach mewn practisau yng Nghymru. Mae'n braf clywed gan rai faint y gwnaethon nhw fwynhau eu blynyddoedd yn Aberystwyth a pha mor barod oedden nhw'n teimlo ar gyfer y camau nesaf. Dyma ddywedodd un myfyriwr:

> "... Roeddwn i eisiau diolch i chi a gweddill tîm Ysgol Filfeddygol Aberystwyth am eich holl waith caled a'ch ymroddiad a wnaeth 2 flynedd gyntaf y cwrs mor bleserus. Rwy'n teimlo mor ffodus fy mod wedi gallu profi amgylchedd dysgu mor wych ac yn teimlo mor barod ar gyfer fy mlynyddoedd clinigol. Rwyf i, a llawer o'r lleill, yn teimlo na allem fod wedi cael dechrau gwell i'n gyrfaoedd milfeddygol, ac roeddwn i eisiau mynegi pa mor dda rydych chi wedi llwyddo i greu cwricwlwm eithriadol gydag addysgu gwych yn ogystal ag amgylchedd lle'r oeddwn i'n teimlo fy mod i'n cael cefnogaeth, ac fel unigolyn, yn cael meithrin fy niddordebau proffesiynol. Rydych chi'n destun balchder i'r byd milfeddygol a Chymru, ac rwy'n edrych ymlaen at ddod yn ôl i wneud lleoliadau gwaith! Diolch!..."

Ym mis Medi eleni rydym yn dechrau rhaglen nyrsio milfeddygol ac ymddengys bod diddordeb mawr o edrych ar y ceisiadau sydd eisoes wedi dod i law. Bydd ein myfyrwyr yn treulio 18 mis yn Aberystwyth cyn ymgymryd â lleoliad blwyddyn o hyd mewn practis. Yna byddant yn dychwelyd am 6 neu 18 mis, yn dibynnu a ydynt yn dewis llwybr diploma neu radd.

Gweledigaeth yr ysgol filfeddygol yw diwallu anghenion y proffesiwn milfeddygol, amaethyddiaeth a chymdeithas yng Nghymru, ac rydym yn symud ymlaen ar y daith honno. Rydym yn ceisio mynd i'r afael â'r prinder milfeddygon yn y rhan hon o'r wlad ac adeiladu ysgol leol, yn seiliedig ar falchder cenedlaethol, sy'n diwallu anghenion lleol, a diwylliant ac iaith. Mae ar Gymru angen Ysgol sy'n deall anghenion ei milfeddygon ei hun, ac sy'n gallu bodloni'r anghenion hynny - o ddarparu graddedigion sy'n gallu siarad Cymraeg, sy'n dod o Gymru ac felly'n fwy tebygol o aros yng Nghymru, i ddarparu cefnogaeth i'r proffesiwn gyda hyfforddiant i ôl-raddedigion, a chynnal gwaith ymchwil rhagorol sy'n berthnasol yn lleol. Mae'r daith eisoes ar droed!

## Ysgol Filfeddygol Aberystwyth yn cynllunio i ehangu yn sgil cymynrodd hael

Mae cynlluniau ar gyfer cyfleusterau ychwanegol yn Ysgol Filfeddygol Prifysgol Aberystwyth gam yn agosach diolch i rodd sylweddol.

Bydd y rhodd o £100,000 gan ystad y diweddar Gordon Burrows yn cynorthwyo i ariannu efelychiad o glinig milfeddygol ar gampws Penglais y Brifysgol.

Unwaith bydd yr holl gyllid wedi'i sicrhau, bydd y clinig newydd yn cynnwys cyfleusterau safonol megis ystafelloedd aros, archwilio a thriniaeth ynghyd â'r offer angenrheidiol ar gyfer trin anifeiliaid bach.

Dywedodd yr Athro Darrell Abernethy, Pennaeth yr Ysgol Gwyddor Filfeddygol ym Mhrifysgol Aberystwyth:

"Fel rhan o'u proses addysgu, mae'n bwysig bod ein myfyrwyr yn cael profiad ym maes hyfforddiant milfeddygol clinigol a dealltwriaeth o'r offer allweddol a'r prosesau sy'n digwydd mewn clinigau milfeddygol. Rydyn ni'n hynod ddiolchgar am y gymynrodd hael hon sy'n ein caniatáu i gymryd cam ymlaen gyda'n cynlluniau i ehangu'n cyfleusterau a gwella ymhellach fyth yr addysgu ry'n ni'n ei gynnig yn Aberystwyth."




*Dechreuodd y myfyrwyr cyntaf Ysgol Gwyddor Filfeddygol Prifysgol Aberystwyth ym mis Medi 2021.*

Dywedodd ysgutor ar ran ystad y diweddar Gordon Burrows:

"Byddai Gordon Burrows wedi bod yn falch o wybod bod ei etifeddiaeth yn gwella hyfforddiant milfeddygol ar gyfer cenedlaethau o fyfyrwyr y dyfodol. Bu'n fraint gweithio gyda'r Brifysgol i sicrhau bod y gymynrodd er cof amdano'n gwneud cyfraniad hirdymor i waith yr Ysgol Gwyddor Filfeddygol."

Cafodd Ysgol Gwyddor Filfeddygol Aberystwyth ei hagor yn swyddogol gan y Brenin Charles III yn 2021, yn dilyn buddsoddiad o dros ddwy filiwn o bunnoedd mewn adnoddau addysgu newydd ar gampws Penglais y Brifysgol.

Mae'r cwrs yn darparu cyfleoedd i fyfyrwyr astudio agweddau penodol ar wyddor filfeddygol drwy gyfrwng y Gymraeg, wedi'u hariannu'n rhannol gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

ERTHYGL

# Yr Hen Goleg



Credyd: Mark Lewis Photography

## Atriwm newydd yn allweddol i ddatgloi potensial enfawr yr Hen Goleg

Mae cynnydd rhagorol wedi ei wneud ar ailddatblygu'r Hen Goleg yn ganolfan newydd o bwys ar gyfer dysgu, treftadaeth, diwylliant a menter.

Wedi'i wisgo mewn sgaffaldiau, mae'r adeilad rhestredig gradd 1 yn cael ei ail-doi o un pen i'r llall, ac mae gan y Cwad, calon yr adeilad ers tân mawr 1885, lawr newydd.





*Bydd y fynedfa newydd a'r atriwm o Stryd y Brenin yn datgloi potensial enfawr yr Hen Goleg.*

Ym mis Ebrill bydd gwaith yn dechrau ar adeiladu mynedfa ac atriwm newydd syfrdanol.

Yn ymestyn dros saith llawr ac yn darparu mynediad rhwydd i bob lefel o'r Hen Goleg a'r Cambria, bydd yr atriwm newydd hefyd yn cynnwys ystafell ddigwyddiadau ar gyfer 200 o bobl gyda ffenestr wydr fawr â golygfeydd godidog o Fae Ceredigion.

Yn ôl pensaer y prosiect, Lyn Hopkins o gwmni penseiri Lawray, bydd yr atriwm newydd yn datgloi potensial enfawr yr Hen Goleg.

"Dros y blynyddoedd bu'r Hen Goleg yn hynod heriol i unrhyw un oedd yn dymuno symud o un pen o'r adeilad i'r llall gan fod angen dychwelyd i'r llawr gwaelod bob tro cyn dringo eto. Ac roedd y grisiau cul niferus yn golygu ei fod yn anhygyrch i lawer o bobl. Gan dynnu ar waith Seddon a Ferguson a sut yr oeddent yn chwarae â gofodau, aethom ati i ddylunio ardal gyfoes sy'n agor yr adeilad cyfan ac yn galluogi pawb i gael mynediad i

bob lefel o'r tirnod hyfryd hwn am y tro cyntaf erioed."

"Drwy gynnwys grisiau a lifftiau newydd, mae'r atriwm hefyd wedi'i gwneud hi'n bosibl i ni gadw llawer o nodweddion pensaernïol gwreiddiol a chymeriad yr Hen Goleg. Hebddo, ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl", ychwanegodd Lyn.

Mi fydd yr atriwm yn cynnig dehongliad cyfoes o dreftadaeth bensaernïol yr Hen Goleg, ac yn fynedfa gyhoeddus newydd o Stryd y Brenin i gyd-fynd â'r brif fynedfa newydd o'r promenâd drwy'r Filas Sioraidd.

Wedi'i osod yn ôl o'r ffordd, ni fydd yr atriwm yn amharu ar yr olygfa o'r Hen Goleg ar hyd y ffordd o Heol y Wîg.

Mae'r atriwm hefyd yn darparu'r seiliau a'r cantilifer ar gyfer yr ystafell ddigwyddiadau newydd a fydd yn ymddangos fel ei bod yn arnofio uwchben y Filas Sioraidd.

Mae'r gofod newydd hwn â'i olygfeydd panoramig ar draws Bae Ceredigion yn allweddol i hyfywedd economaidd y prosiect.


Ychwanegodd Lyn: "Ein briff oedd creu gofod newydd sy'n ddigon mawr i gyd-fynd â mannau eraill yn yr adeilad allai gynnal digwyddiadau mwy, megis priodasau yn yr Hen Lyfrgell, sy'n bwysig ar gyfer hyfywedd yr Hen Goleg fel lleoliad.

"Yn ogystal â chynnig golygfeydd anhygoel o Benrhyn Llŷn a'r Wyddfa ar ddiwrnod clir, mae'r ystafell ddigwyddiadau newydd wedi ein galluogi ni i gadw llawer o ofodau eraill yr adeilad, megis yr Hen Neuadd ac Ystafell Seddon, yn eu fformat gwreiddiol, a thrwy hynny barchu eu treftadaeth a'u hygrededd bensaernïol."

Bydd yr ystafell ddigwyddiadau hefyd wedi'i gosod yn ôl o'r ffordd fel na fydd yn rhwystro'r olygfa o'r Hen Goleg, Y Cambria a'r Filas Sioraidd, wrth i bobl agosáu tuag ati ar hyd y promenâd.

## Adeilad sy'n esblygu

Yr atriwm yw'r ychwanegiad diweddaraf at yr Hen Goleg sydd wedi gweld llawer o newidiadau mawr ers i Syr Uvedale Price adeiladu Tŷ'r Castell ar y safle yng nghanol y 1790au.



*Paratoi i osod llawr newydd y Cwad*
*Credyd: Mark Lewis Photography*



*Chwith i'r dde: Lyn Hopkins o gwmni penseiri Lawray; Shaun Davies, Uwch Reolwr Prosiect gydag Andrew Scott Ltd; Jim O'Rourke, Rheolwr Prosiect yr Hen Goleg a'r Athro Anwen Jones, Arweinydd Gweithredol Prifysgol Aberystwyth ar y Prosiect, ar safle mynedfa newydd Stryd y Brenin a'r atriwm.*

Gwaith John Nash, pensaer Llannerch Aeron a Phalas Buckingham, oedd Tŷ'r Castell, a gafodd ei brynu yn y 1860au gan Thomas Savin, dilledydd o Groesoswallt a ddaeth yn gontractiwr rheilffordd.

Wrth weithio gyda'r pensaer J P Seddon, aeth Savin ati i drawsnewid y safle yn westy i gyd-fynd â dyfodiad y rheilffordd i Aberystwyth.

Methiant fu menter Savin gan iddo ddioddef yn sgil cythrwfl ariannol canol y 1860au ac fe brynwyd y safle ym 1867 fel cartref cyntaf Prifysgol Cymru.

Parhaodd Seddon â'r gwaith o addasu'r adeilad, hyd yn oed ar ôl tân mawr 1885, pan ddinistriwyd llawer o adain ogleddol yr adeilad.

Gwnaethpwyd newidiadau pellach yn ystod ail hanner y 1890au pan ddymchwelwyd Tŷ'r Castell, cartref y Prifathro am nifer o flynyddoedd, i wneud lle ar gyfer bloc gwyddoniaeth newydd gan y pensaer C J Ferguson.

## Bywyd Newydd i'r Hen Goleg

Apêl yr Hen Goleg yw un o'r ymgyrchoedd codi arian mwyaf llwyddiannus yn hanes Prifysgol Aberystwyth ac mae haelioni cyn fyfyrwyr a ffrindiau wedi bod yn anhygoel. Codwyd dros £4m gan ymddiriedolaethau, sefydliadau ac unigolion, ac mae rhoddion newydd yn parhau i gyrraedd.

Ynghyd ag arian gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Llywodraeth Cymru a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Cymunedau'r Arfordir, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a Chronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU, mae'r prosiect bellach wedi denu dros £30m gan gyllidwyr.

Fodd bynnag, mae tipyn o ffordd i fynd eto cyn i ni allu gwireddu'r prosiect hwn yn llawn. Os am wybod rhagor am sut i gyfrannu at Apêl yr Hen Goleg ewch i: https://www.aber.ac.uk/cy/oldcollege/old-college/

Am ragor o wybodaeth am brosiect yr Hen Goleg, ewch i https://www.aber.ac.uk/cy/oldcollege/

NODWEDD

# Y Ganolfan Ddeialog

### Ynglŷn â Dr Wolowic



*Dr Jennifer Wolowic, Prif Arweinydd Canolfan Ddeialog Prifysgol Aberystwyth*

Ganwyd a magwyd Jennifer Wolowic ger San Francisco yng Nghaliffornia, UDA. Astudiodd radd mewn Anthropoleg ym Mhrifysgol Talaith San Francisco cyn mynd ymlaen i astudio am radd Meistr mewn Anthropoleg ac yna PhD mewn Astudiaethau Rhyngddisgyblaethol ym Mhrifysgol Columbia Brydeinig yng Nghanada. Gweithiodd Dr Wolowic yng Nghanolfan Ddeialog Morris J. Wosk ym Mhrifysgol Simon Fraser gan gyd-arwain prosiectau i wella democratiaeth a chyswllt â'r cyhoedd.

**Datblygiad cyffrous ym Mhrifysgol Aberystwyth oedd lansio'r Ganolfan Ddeialog newydd sbon. Ei nod yw meithrin cydweithio a chyfleoedd arloesol ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a chynyddu cydweithio rhwng ymchwilwyr a'r byd ehangach. Yma, mae Prif Arweinydd y Ganolfan Ddeialog, Dr Jennifer Wolowic, yn sôn mwy am yr hyn sydd wedi digwydd a pha gynlluniau sydd ar y gweill.**



*Gweithiodd y Ganolfan Ddeialog gydag ystod o bartneriaid lleol i gydlynu Gŵyl Ymchwil 2024 y Brifysgol, lle cynhaliwyd 20 digwyddiad mewn gwahanol leoliadau gan gynnwys Amgueddfa Ceredigion yn hen adeilad y Colisewm yng nghanol y dref.*




*Ym mis Gorffennaf 2023, daeth y Ganolfan Ddeialog â 35 o aelodau o gymunedau creadigol Aberystwyth ynghyd i ystyried sut y gallai entrepreneuriaid a diwydiannau creadigol yn yr ardal ddatblygu a ffynnu ymhellach. Dyluniwyd a hwyluswyd y digwyddiad cydweithredol hwn gan FlourishCafe™, ac fe'i cynhaliwyd yn y bandstand.*

Mae ysgrifennu'r erthygl hon ddiwedd mis Ionawr 2024 wedi rhoi cyfle i mi fyfyrio ar fy 12 mis cyntaf yn Brif Arweinydd Canolfan Ddeialog Prifysgol Aberystwyth. Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur wrth i mi weithio gyda chydweithwyr i osod sylfeini ar gyfer y fenter newydd uchelgeisiol hon yn ogystal â chynllunio, arwain neu gynghori ar ystod eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau ledled y Brifysgol.

Roedd ein rhaglen waith amrywiol yn cynnwys cydlynu Hawlio Heddwch, sef Gŵyl Ymchwil eleni. Roedd yn gyfle i ddathlu canmlwyddiant Deiseb Heddwch Menywod Cymru, a lansiwyd mewn cynhadledd yn y Brifysgol ym mis Mai 1923 ac a lofnodwyd gan bron i 400,000 o fenywod cyn cael ei chludo i UDA ym 1924. Dros gyfnod o chwe diwrnod ym mis Tachwedd 2023, cynigiodd yr ŵyl 20 o wahanol ddigwyddiadau a oedd yn canolbwyntio ar heddwch, gan ddenu dros 600 o bobl i gymryd rhan.

Buom hefyd yn cydweithio gydag adran Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus y Brifysgol i gynllunio a hwyluso digwyddiad uchel ei broffil yn y Senedd ym Mae Caerdydd ym mis Mai 2023. Daeth y sesiwn ag ymchwilwyr, gwleidyddion, llunwyr polisi, sefydliadau ffoaduriaid ac ymarferwyr eraill o'r trydydd sector ynghyd i drafod sut y gallai Cymru gyflawni ei huchelgais o fod yn Genedl Noddfa.






*Mae Tŷ Trafod Ymchwil y Ganolfan Ddeialog yn y Ganolfan Delweddu ar Gampws Penglais.*

Ychydig wythnosau yn ddiweddarach fe wnaethom gynnal digwyddiad FlourishCafe yn Aberystwyth, lle bu cynrychiolwyr o'r diwydiannau creadigol yng Ngheredigion yn trafod sut y gallent weithio'n agosach gyda'i gilydd a chyda'r Brifysgol er mwyn sicrhau y gall eu sector ffynnu. Mae eu sylwadau a'u hargymhellion wedi cael eu rhannu gyda swyddogion sy'n gweithio ar strategaeth ddiwylliant yng Nghyngor Sir Ceredigion.

Mae deialog yn ymwneud â chreu gwahanol fathau o ofodau a ffyrdd o weithio. Elfen allweddol arall o gylch gwaith y Ganolfan Ddeialog yw cynnig cyfleoedd hyfforddi. Cynhaliwyd rhaglen beilot gennym i groesawu carfan o 20 o staff academaidd a staff y gwasanaethau proffesiynol ar gyfer hyfforddiant ar ddulliau Deialog a Hwyluso ar gyfer grwpiau. Ers hynny maent wedi defnyddio'r dulliau hyn mewn ystafelloedd darlithio ac mewn cynulliadau ymchwil rhyngwladol.

Rydym hefyd wedi cyflwyno gweithdai rhyngweithiol i ddysgu sgiliau deialog i fyfyrwyr sy'n astudio cwrs Meistr y Brifysgol ar Newid Ymddygiad, hwyluso sesiynau meithrin tîm mewnol, ac wedi cynllunio diwrnodau cwrdd i ffwrdd i staff yn ogystal â darparu hyfforddiant un wrth un i ymchwilwyr.

Ym mis Awst 2023, lansiwyd man cyfarfod newydd ar gampws Penglais lle gall ymchwilwyr ymgynnull i siarad am eu gwaith, cynnal digwyddiadau cyfnewid gwybodaeth, a datblygu gwaith ar y cyd. Mae'r gofod pwrpasol hwn, y Tŷ Trafod Ymchwil, eisoes wedi'i ddefnyddio i gynnal mwy na 70 o ddigwyddiadau yn ogystal â nifer o gyfarfodydd anffurfiol.

Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, mae dyddiadur y Ganolfan Ddeialog ar gyfer 2024 eisoes yn prysur lenwi. Byddwn yn darparu hyfforddiant i Academi Arweinyddiaeth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chymdeithas Ddysgedig Cymru. Byddwn hefyd yn croesawu cyfarwyddwr Canolfan Cyfathrebu Gwyddoniaeth Virgina Tech a fydd yn ein hysbrydoli i wella ein cyfathrebu trwy gemau theatr a hwyluso creadigol.

Bydd hyfforddiant ychwanegol ar gyfer ein carfan Deialog a Hwyluso gyntaf a byddwn yn lansio ail garfan yn yr haf. Byddwn hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu portffolio datblygiad proffesiynol parhaus y Brifysgol a arweinir gan y diwydiant, ac yn lansio ymgynghoriaeth ffi-am-wasanaeth sy'n cynnig hyfforddiant a chymorth hwyluso i gleientiaid allanol.

Os ydych chi'n bwriadu ymweld â Gŵyl y Gelli rhwng 23 Mai a 2 Mehefin, ymunwch â ni ar gyfer y tair sesiwn gyda staff academaidd Aberystwyth a'r Ganolfan Ddeialog. Mae'r rhain yn cynnwys lansio ein prosiect *Gwedd Newydd ar Ddemocratiaeth* gyda Chanolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru y Brifysgol. Byddwn hefyd yn y Sioe Frenhinol ym mis Gorffennaf a'r Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst. Tua diwedd y flwyddyn, byddwn yn cynnal cyfarfod cenedlaethol yng Nghaerdydd ar danio diddordeb y cyhoedd mewn democratiaeth.

Gan edrych ymhellach ymlaen i'r dyfodol, rydym yn gobeithio agor y Ganolfan Ddeialog o fewn muriau eiconig yr Hen Goleg, cartref cyntaf y Brifysgol ar y prom yn Aberystwyth, yn 2026. Erbyn i'r adeilad hanesyddol hwn ailagor, byddwn wedi bwrw gwreiddiau cadarn er mwyn i'r Ganolfan Ddeialog ddod yn fagned byd-eang hunangynhaliol - gan gynnig cyfleoedd cydweithredol cymunedol a rhyngwladol; hyfforddiant i staff, cleientiaid y diwydiant ac eraill; cyfrannu at genhadaeth ddinesig y Brifysgol a defnyddio dulliau cydweithredol er budd ehangach y gymdeithas.

---

**Gallwch gael gwybod mwy am waith Canolfan Ddeialog Prifysgol Aberystwyth ar ein gwefan dialogue.aber.ac.uk neu anfonwch e-bost atom drwy dialogue@aber.ac.uk.**

# Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr

Mae hi wedi bod yn flwyddyn gyffrous iawn ers i mi gael y pleser o ysgrifennu yn PROM ddiwethaf, ac mae hi wedi bod yn gyfnod o newid mawr hefyd.

Rwy'n siŵr yr hoffai pob cyn-fyfyriwr ymuno â mi i fynegi diolch a gwerthfawrogiad diffuant i'r Athro Elizabeth Treasure am bopeth a gyflawnodd ar ran y brifysgol dros y saith mlynedd diwethaf fel Is-ganghellor, ac i Dr Emyr Roberts am arwain Cyngor y Brifysgol dros ddau dymor prysur.



Lauren Marks, Llywydd Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr

Ar ran Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr, rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r Athro Jon Timmis (ac nid yn unig oherwydd ei fod yntau yn un o gyn-fyfyrwyr Aber!) wrth iddo ymgymryd â'r hyn yr wyf yn siŵr fydd yn gyfnod yr un mor gyffrous yn Is-ganghellor, a gweithio i gryfhau'r rôl y gall Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr a'n cymuned o gyn-fyfyrwyr ei chwarae'n ehangach yn nyfodol y brifysgol. Dymunwn y gorau iddo ef, ac i Meri Huws fel Cadeirydd Cyngor y Brifysgol, ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Uchafbwynt y flwyddyn ddiwethaf heb os oedd dathlu 150 o flynyddoedd ers sefydlu Prifysgol Aberystwyth, a 130 mlynedd o Gymdeithas y Cyn-fyfyrwyr. Yn enwedig, gallu cysylltu, ac ailgysylltu, â chymaint o aelodau a chyn-fyfyrwyr mewn digwyddiadau a gweithgareddau a oedd yn dathlu'r garreg filltir anhygoel hon, ac edrych ymlaen at y dyfodol. Dyma'r fraint dwi'n ei mwynhau fwyaf yn fy rôl; rhannu atgofion, clywed straeon pobl eraill am eu cyfnod yn Aber, a chael gwybod am y datblygiadau diweddaraf, sy'n fy llenwi â balchder wrth i'r brifysgol ddal ati i arwain mewn sawl maes.

Yn benodol, fe wnaethom fwynhau'r Penwythnos Aduniad ym mis Mehefin, ac ymunodd tua 250 o gyn-fyfyrwyr ac aelodau Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr â ni yn Aber, ar ôl ychydig flynyddoedd lle nad oedd modd cynnal yr Aduniad oherwydd y pandemig. Fe wnaethon ni gicio'r bar ar y Prom, ail-ymweld â'n hadrannau ar gyfer gweithgareddau a sgyrsiau gwych, bwyta ambell ddarn o gacen a hyd yn oed partïo ar y Pier! Ond yn bennaf oll, rwy'n gobeithio bod pawb a ddaeth wedi mwynhau bod yn ôl yn y dref ger y lli yn rhannu eu cariad at Aber gyda sawl cenhedlaeth o gyn-fyfyrwyr.

Rwy'n gobeithio gweld llawer ohonoch yn ôl yn Aber eto eleni, neu yn un o'r digwyddiadau eraill yn ystod y flwyddyn - cadwch lygad am ddigwyddiadau yn yr Eisteddfod, Sioe Frenhinol Cymru, ac edrychwn ymlaen at gwrdd â llawer o fyfyrwyr sy'n graddio a'u teuluoedd yn ystod yr wythnos raddio.

Wrth gwrs, hoffwn ddiolch i Swyddogion a Phwyllgor Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr, Canghennau Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr, a'n haelodau am eich holl waith caled a'ch ymroddiad i Gymdeithas y Cyn-fyfyrwyr ac i ddod â'n cymuned ynghyd.

Rydym bob amser yn croesawu Aelodau Oes newydd i Gymdeithas y Cyn-fyfyrwyr ac yn falch bod llawer o gyn-fyfyrwyr eisiau cymryd y cam ychwanegol gyda ni ar ein taith, cadw mewn cysylltiad â'r Brifysgol a'i chyn-fyfyrwyr, a gweithio gyda ni i gefnogi'r Brifysgol, myfyrwyr presennol, ac edrych tua'r dyfodol. Os hoffech chi gael gwybod mwy, cysylltwch â ni neu ewch i'n gwefan.

---

www.osaaber.org
www.aber.ac.uk/cy/development/osa/

Ers 2016, mae'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu wedi elwa ar bartneriaeth wych gydag un o wyliau celfyddydol mawr y byd. Graddiodd Ben Thompson o'r Adran gyda gradd mewn Astudiaethau Ffilm a Theledu a Drama. Erbyn hyn mae'n Is-Lywydd Ffilmiau Byrion yng Ngŵyl Tribeca, gŵyl a sefydlwyd gan Robert de Niro, Jane Rosenthal a Craig Hatkoff yn 2002 er mwyn sbarduno adfywiad diwylliannol ac economaidd yn yr ardal honno o Manhattan yn dilyn ymosodiadau 11 Medi, 2001.



*Llun (chwith i dde): Molly Clarke, Tom Bow, Sam Aitken a Tayjib Kerstan – enillwyr 2022*

Gyda dros 1000 o ddangosiadau a digwyddiadau, a channoedd o filoedd yn bresennol, mae'n ddigwyddiad o bwys byd-eang. Bob blwyddyn, mae pedwar myfyriwr yn cael cyfle i ymweld â'r ŵyl, profiad sy'n eu trawsnewid a'u hysbrydoli. Mae myfyfwyr wedi mynychu sgyrsiau a dosbarthiadau meistr gyda Robert De Niro, Martin Scorsese, Werner Herzog, Jennifer Lawrence, Scarlett Johansson, Jamie Foxx, Ewan McGregor, Jane Fonda, Bradley Cooper, David O. Russell, Pharrell Williams i enwi dim ond rhai.

Ni fyddai'r ymweliad hwn yn bosib heb garedigrwydd Ben a chyn-fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth sy'n cyfrannu i Gronfa Aber. Mawr yw diolch yr adran a'r myfyfyrwyr am eu haelioni.

# Cyn-fyfyriwr yn rhoi £3.1m ar gyfer ymchwil ym Mhrifysgol Aberystwyth

Yn y swyddfa un prynhawn yr haf diwethaf, cefais alwad ffôn nid annisgwyl ond a oedd er hynny yn swreal pan ddaeth hi. Dywedwyd wrthyf gan reolwr banc ar y pen arall yn hollol ddideimlad ei bod ar fin trosglwyddo £3.1 miliwn i'r Brifysgol, o Ymddiriedolaeth Joy Welch. A allai hi wirio ein manylion banc unwaith eto? Ac a oeddwn i eisiau siarad â Christine Heseltine, ymddiriedolwr, a oedd wedi rhoi'r cyfarwyddyd i drosglwyddo'r arian ac a oedd yn eistedd wrth ei hymyl? Yn dilyn hyn, cafodd Christine a minnau sgwrs benysgafn braidd lle diolchais iddi eto ar ran y Brifysgol ac atebodd hithau, 'Byddai Modryb Joy wedi bod mor falch!'.



Joy Welch yn aelod o Wasanaeth Merched y Llynges Frenhinol ym 1943



Joy Welch (rhes flaen, canol) yng Ngholeg Prifysgol Cymru Aberystwyth fel Capten Tenis ym 1948

Cyfeiriad at Margaret Joy Welch oedd 'Modryb Joy', dyngarwr, sylfaenydd Ymddiriedolaeth Elusennol Addysgol Joy Welch a chyn-fyfyriwr balch Aber, a fu farw yn 2017. Ond pwy oedd hi? Fel y dywed Ms Heseltine yn yr ysgrif goffa a ysgrifennodd i'w modryb:

Ganwyd Joy yn Galgate, ychydig y tu allan i Gaerhirfryn. Cafodd ei haddysg yn y cartref, yna ei hanfon i ysgol breswyl Birklands yn St Albans. Cafodd yr ysgol gyfan ei symud yn ystod yr Ail Ryfel Byd i Burford House ychydig dros ffin Cymru yn Henffordd. Yn 17 oed, â'r rhyfel yn dal i fynd rhagddo, gwirfoddolodd Joy i ymuno â Gwasanaeth Merched y Llynges Frenhinol. Bu'n sgwrio lloriau yn yr Alban, rhyddhau balwnau meteorolegol yng Nghernyw ac yna cafodd ei hanfon i Eastcote, ger Ruislip. Roedd Eastcote yn gangen o Barc Bletchley. Yno dysgodd Joy i weithredu'r peiriannau a ddefnyddiwyd i ddatrys negeseuon Enigma yr Almaen. Ni ddatgelwyd unrhyw beth wrth ffrindiau, a hyd yn oed ei theulu agosaf, am swydd Joy hyd nes i'r wybodaeth gael ei ddatgelu'n swyddogol yng nghanol y 1970au.

Ym 1946 aeth Joy i Aberystwyth i astudio Economeg, Daearyddiaeth ac Athroniaeth, gan raddio gyda BSc. mewn Economeg ym 1950. Roedd hi hefyd yn mwynhau chwarae tenis, gan ddod yn gapten tenis y merched ym 1948 (gweler y llun).

Bu Joy yn byw yn Llundain am y rhan fwyaf o'i bywyd fel oedolyn. Parhaodd i chwarae tenis am gyhyd ag y gallai fwrw pêl. Roedd hi'n paentio, yn teithio'n eang, yn ddarllenwr brwd, yn garddio, yn hebrwng plant sâl i'r ysbyty ac apwyntiadau deintyddol; ac yn mwynhau mynd i gaffis a bwytai ar bob cyfle – a werthfawrogwyd yn fawr gan ffrindiau a theulu oedd yn ymweld.

Ym 1988 sefydlodd Ymddiriedolaeth Joy Welch sydd dros y blynyddoedd wedi cefnogi llawer o ysgolion cynradd, yn ogystal â phrosiectau ymchwil prifysgol a geisiai fod o fudd i economi'r DU. Roedd Aberystwyth, alma mater Joy, yn derbyn arian grant yn rheolaidd gan yr Ymddiriedolaeth, ac felly hefyd Prifysgol Caerhirfryn gan fod tad Joy, John Welch, yn un o'i sylfaenwyr. Ym 1998 dyfarnodd Prifysgol Cymru (ar y pryd) Gymrodoriaeth i Joy ac roedd hi'n falch iawn ohoni, a hynny'n haeddiannol.

Yng nghanol y 1990au symudodd Joy yn ôl i Swydd Durham, i fod yn agos at ei thair nith, eu plant a'i brawd iau. Oddi yno parhaodd i reoli'r Ymddiriedolaeth ynghyd â'i nithoedd, hyd ei marwolaeth. Dros y blynyddoedd mae'n agos i gant o'n hymchwilwyr, yn amrywio o uwchraddedigion i Athrawon, wedi sicrhau cyllid Joy Welch, a hynny ar gyfer prosiectau bach a fyddai'n fwy aml na pheidio yn gweithredu fel catalyddion i baratoi'r ffordd i grantiau a chyhoeddiadau ymchwil mwy.

Dymuniad Joy oedd rhannu'r rhan fwyaf o asedau'r Ymddiriedolaeth yn gyfartal rhwng Prifysgolion Aberystwyth a Chaerhirfryn - gan arwain at yr alwad ffôn gofiadwy honno. Mae'r rhodd hynod hael hon, un o'r gwaddolion mwyaf a dderbyniwyd gan y Brifysgol erioed, bellach yn cael ei chadw am byth yng 'Nghronfa Ymchwil Joy Welch'. Mae'r holl ddisgyblaethau academaidd wedi'u cynnwys, ac felly bydd etifeddiaeth Joy yn cefnogi cenedlaethau o ymchwilwyr heddiw ac yn y dyfodol, waeth pa newidiadau a ddaw dros amser i wahanol feysydd astudio.

Yn anffodus, ni wnaeth Joy a minnau gwrdd wyneb yn wyneb, ac felly gadawaf y gair olaf i'w theulu: 'mae hi'n cael ei chofio fel menyw ddi-lol, benderfynol, anghonfensiynol. Roedd hi'n ffrind a pherthynas ffyddlon ac yn hynod hael i lawer oedd yn ddigon ffodus i'w hadnabod ac i lawer o bobl na fu iddi erioed eu cyfarfod'.



Dr Eva De Visscher, Rheolwr Ymddiriedolaethau a Sefydliadau, Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni (DARO)




# ArloesiAber yn Ysgogi Ysbryd Arloesol

Mae Prifysgol Aberystwyth yn esiampl o ragoriaeth academaidd ers tro, gan feithrin meddyliau disglair ac arloesedd ar draws amrywiol feysydd. Gan godi ei hymrwymiad i uchelfannau newydd, buddsoddodd y brifysgol yn 'ArloesiAber' – ei Champws Arloesi a Menter newydd yng Ngogerddan, ynghyd â Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a'r Cyngor Ymchwil Gwyddonol Biolegol a Biotechnoleg, sy'n rhan o Ymchwil ac Arloesi yn y DU. Nod ArloesiAber yw bod yn ganolbwynt ar gyfer mentergarwch ac ymchwil a datblygu, gan ddarparu'r cymorth a'r adnoddau angenrheidiol i ddarpar entrepreneuriaid brofi a dilysu eu syniadau, yn enwedig mewn sectorau megis y biowyddorau, bwyd a diod, technoleg amaeth a'r gwyddorau amgylcheddol.


Mae ArloesiAber yn cynnig pedwar parth technegol sy'n cynnwys labordai a neuaddau prosesu, wedi'u cynllunio'n arbennig ar gyfer ymchwil a datblygu cydweithredol ym maes bwyd-amaeth a'r economi gylchol gan gynnwys Canolfan Bwyd y Dyfodol, Canolfan Bioburo, Uwch Ganolfan Ddadansoddi a Chanolfan Arloesi ganolog. Mae cyfleuster Biofanc Hadau newydd y Brifysgol hefyd i'w gael ar y safle. Mae amrywiaeth o adnoddau ymarferol wedi'u teilwra i anghenion busnesau, gan gynnwys swyddfeydd ar




gael i'w rhentu, a elwir yn 'Swyddfeydd Deori', yn ogystal ag opsiynau aelodaeth hyblyg, sy'n agor y drws i'w chymuned fywiog, gwasanaethau cymorth arbenigol a'i chyfleusterau. Ar ben hynny, mae'r cyfleusterau newydd yn cynnwys man cydweithio ac ystafelloedd cyfarfod, sy'n darparu lleoliad deinamig ar gyfer cydweithredu rhwng unigolion o'r un anian, gan gryfhau ymhellach yr 'ecosystem' ddatblygu a gynigir.

Wrth wraidd ArloesiAber a'i dîm o 13 aelod o staff mae ymroddiad i feithrin a grymuso entrepreneuriaid, gan sicrhau y gallant fanteisio ar y fentoriaeth, yr arweiniad a'r cyfleusterau sydd eu hangen arnynt i droi eu syniadau arloesol yn fentrau llwyddiannus. Un stori lwyddiant o'r fath yw stori Jamila La Malfa-Davidson, sy'n dangos potensial ArloesiAber i wireddu syniadau.





Dechreuodd menter Jamila, sef Prohempotic, fel prosiect PhD ym Mhrifysgol Aberystwyth, lle canolbwyntiodd ar ddatblygu dulliau trin, prosesu, a phrofi i echdynnu cyfansoddion meddyginiaethol gwerthfawr o gywarch. Fe wnaeth ei hymroddiad a'i dyfeisgarwch ddal sylw'r brifysgol, ac enillodd gystadleuaeth Gwobr Menter Aber yn 2022, gan sicrhau buddsoddiad o £10,000 i'w busnes er mwyn rhoi hwb i'w thaith entrepreneuraidd.

Ond nid dyna ddiwedd ar wobrau Jamila. Parhaodd ei syniad busnes i ennill cydnabyddiaeth, gan ennill gwobr o £500 ar gyfer busnes gwledig a noddwyd gan y Rhwydwaith Twf, Gwydnwch Gwledig ac Arloesi, yn ogystal â Gwobr Arloeswr Ifanc INNOVATE UK.

Yn rhan o raglen 'Solutions Catalyst' ArloesiAber, roedd modd i Prohempotic fanteisio ar swyddfa breifat, cyfleusterau o'r radd flaenaf, arbenigedd, a rhwydwaith helaeth o gydweithwyr. Mae'r gefnogaeth hon wedi bod yn allweddol wrth gyflymu twf y cwmni, gan ddarparu'r amgylchedd a'r adnoddau sydd eu hangen ar Jamila a'i thîm i ffynnu.

Un enghraifft yn unig yw Prohempotic o'r effaith y mae ArloesiAber yn ei chael ar dirwedd entrepreneuraidd y canolbarth. Trwy ei ddull cyfannol o feithrin arloesedd, mae ArloesiAber yn grymuso cenhedlaeth newydd o entrepreneuriaid i wireddu eu potensial a chael effaith ystyrlon yn eu priod feysydd, wrth hefyd ddarparu'r offer a'r lleoliad arloesi sydd eu hangen ar entrepreneuriaid i lwyddo yn y rhanbarth.

At hynny, mae ArloesiAber yn ceisio parhau i gefnogi staff o Brifysgol Aberystwyth, gan sicrhau yr amlygir y llwybrau entrepreneuriaeth sydd ar gael a allai danio angerdd myfyrwyr a'u grymuso i fwrw ymlaen a'u mentrau entrepreneuraidd yn y dyfodol. Trwy gynlluniau megis interniaethau, gweithdai, a digwyddiadau rhwydweithio, mae ArloesiAber yn creu pont rhwng y byd academaidd a diwydiant, gan roi profiad uniongyrchol a chipolwg ar fyd ymchwil ac arloesi i fyfyrwyr.

Yn ogystal, mae ffocws ArloesiAber ar sectorau allweddol yn adlewyrchu cryfderau unigryw'r rhanbarth a'r potensial ar gyfer twf. Drwy ganolbwyntio ei adnoddau a'i gymorth ar y meysydd hyn, mae ArloesiAber yn ysgogi datblygiad economaidd yn ogystal â mynd i'r afael â heriau byd-eang o bwys.

Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, bydd effaith ArloesiAber yn ymestyn ymhell y tu hwnt i gampws y brifysgol. Trwy annog entrepreneuriaid fel Jamila a meithrin diwylliant o arloesi ar lefel leol, mae ArloesiAber yn gosod y sylfaen ar gyfer dyfodol mwy disglair a gwyrddach i'r canolbarth a thu hwnt.

- https://aberinnovation.com/cy/
- https://www.ukri.org/councils/bbsrc/
- https://aberinnovation.com/cy/gweithio-gyda-ni/cyfleusterau/
- https://aberinnovation.com/cy/hwb-datblygu/solutions-catalyst-cy/



CYFWELIAD Â CHYN-FYFYRIWR

# Cyfweliad gydag Elgan Philip Davies


**Bydd Elgan Davies yn gyfarwydd i nifer o gyn-fyfyrwyr fel cyn-lyfrgellydd croesawgar a gwybodus llyfrgell yr Hen Goleg. Graddiodd yn Aberystwyth yn 1978 gyda gradd gyfun mewn Cymraeg a Hanes Cymru, enillodd Dystysgrif Llyfrgellyddiaeth yng Ngholeg Llyfrgellwyr Cymru ac yna ymuno â staff llyfrgell y brifysgol lle bu tan 2015 pan ymddeolodd fel Rheolwr Casgliadau ac Adnoddau. Bu John Gilbey yn sgwrsio ag ef am ei yrfa, ysgrifennu a cherddoriaeth.**



Cefais fy ngeni ym Mhontrhydfendigaid, pentref sy'n agos i Aberystwyth, lle roedd fy nhad yn blismon. Roedd hi'n gyffredin bryd hynny i swyddogion gael eu symud yn aml, ac erbyn fy mod yn 13 mlwydd oed roeddwn wedi byw mewn pum lle a mynychu chwe ysgol wahanol, gan orffen yn Ysgol Ramadeg Ardwyn yma yn Aberystwyth.

Erbyn hynny roeddwn wedi cael llond bol o addysg, ac yn groes i'r graen, a heb syniad beth roeddwn am ei wneud, fe'm perswadiwyd i fynd i'r chweched dosbarth. Gwnes fawr ddim gwaith yno, gan ganolbwyntio mwy ar gerddoriaeth, chwaraeon, a darllen llyfrau o'm dewis fy hun yn hytrach na'r rhai ar y cwrs. Felly doedd hi'n ddim syndod i neb pan fethais fy arholiadau Lefel 'A'.

Yn y cyfamser, roeddwn wedi gweld hysbyseb yn y *Cambrian News* am swydd Cynorthwyydd Llyfrgell yn y brifysgol, a gan fy mod yn hoff o lyfrau gwnes gais amdani a chael fy ngwahodd i gyfweliad. Dechreuais yn Llyfrgell Gyffredinol yr Hen Goleg ym mis Hydref 1971 ar gyflog crand o £684 y flwyddyn.




**A arhosoch chi gyda'r llyfrgell tan eich ymddeoliad?**
Ddim yn hollol. Awgrymodd William Dieneman, Llyfrgellydd y Coleg, y dylwn ystyried llyfrgellyddiaeth fel proffesiwn, ond byddai'n rhaid i mi gael cymwysterau proffesiynol i wneud hynny. Fe es i Goleg Harlech gyntaf cyn dychwelyd i Aberystwyth i wneud gradd ac yna mynd i Goleg Llyfrgellwyr Cymru.

**Ac yna dychwelyd i Lyfrgell PCA?**
Ie. Roedd y llyfrgell yn ymgymryd â phrosiect mawr o newid y drefn fenthyca llyfrau o system gardiau Browne i un gyfrifiadurol, ac o ganlyniad ces fy mhrofiad cyntaf o gyfrifiadura.

Roedd y mwyafrif o'r adrannau gwyddonol eisoes wedi symud o'r dref i Gampws Penglais. Yn 1976 agorodd Adeilad Hugh Owen a symudodd mwy o adrannau i fyny'r bryn. Wrth i'r Hen Goleg wagio symudwyd

Addysg o'i hen safleoedd yn y dref i mewn i'r adeilad ac fe gefais i'r cyfrifoldeb o symud y llyfrgelloedd.



**Felly chi oedd yn gyfrifol am Lyfrgell yr Hen Goleg pan gaeodd hi yn 2011?**

Ie. Wrth i'r adrannau symud o'r Hen Goleg roedd dyfodol yr adeilad dan drafodaeth. Roedd cael pob adran ar un campws yn anorfod, ond doedd neb yn gwybod beth ddoi o'r Hen Goleg wedyn.

Roeddwn wedi cael fy ngofyn droeon i wneud cyflwyniadau ar hanes yr adeilad ac roeddwn wedi casglu tipyn o ddeunydd hanesyddol, lluniau, cynlluniau ac atgofion. Felly wrth i'r sïon dyfu bod yr adeilad ar werth, meddyliais y gallwn wneud defnydd da o'r deunydd.

Roedd gan Wasg Gomer gyfres o'r enw *The Wonders of Wales/Cip ar Gymru* a oedd yn canolbwyntio ar un lle, person, neu draddodiad Cymreig, ac roedd cyn-fyfyriwr arall o Aberystwyth yn olygydd yno. Anfonais fraslun o lyfr am yr Hen Goleg ato i weld a fydden nhw'n ystyried ei gynnwys yn y gyfres. Gan fod y rhan fwyaf o'r gwaith wedi ei wneud, cytunodd, a chyhoeddwyd *Yr Hen Goleg/The Old College* yn 2011.

**Ond nid hwn oedd eich llyfr cyntaf?**

Nage. Cyhoeddais lyfr plant yn 1985. Roedd fy merch tua 9 oed ar y pryd ac yn ôl hi roedd hi wedi darllen pob llyfr roedd hi'n ei hoffi yn y llyfrgell – felly yn ystod fy awr ginio yn yr Hen Goleg ysgrifennais lyfr ar ei chyfer hi ac eraill o'r un oedran. Ers hynny dwi wedi cyhoeddi dros 50 llyfr ar gyfer plant, yr arddegau ac oedolion. Roedd un o'r llyfrau oedolion ar restr fer Llyfr y Flwyddyn yn 1999 ac un arall ar restr hir yr un wobr yn 2004.

**Pan yn fyfyriwr roeddech yn aelod o'r grŵp poblogaidd Hergest. Ydych chi wedi dychwelyd at gerddoriaeth ar ôl ymddeol?**

Gadewais y grŵp yn 1976 ond mae'r tri aelod arall wedi parhau i greu cerddoriaeth dros y 50 mlynedd ddiwethaf, naill ai fel unigolion neu mewn grwpiau, ond y tro olaf i ni ganu gyda'n gilydd oedd yng Ngŵyl y Faenol yn 2004. Gan mai cerddoriaeth oedd wedi ein dwyn ni at ein gilydd yn y lle cyntaf, meddyliais y byddai'n dda i wneud mwy. Cytunodd y tri, a gyda deuddeg cân newydd fe aethon ni i'r stiwdio i'w recordio ym mis Medi 2018. Roeddwn wedi gobeithio cyhoeddi'r albwm adeg yr Eisteddfod yn Nhregaron yn 2020 ond oherwydd Covid gohiriwyd yr Eisteddfod Genedlaethol a'r CD tan 2022.

Dwi hefyd wedi parhau i ymchwilio ac ysgrifennu am yr Hen Goleg, gan orffen *Bywyd Newydd i'r Hen Goleg/New Life for Old College* yn 2020 a *Y Cambria/The Cambria* yn 2023. Cyfrennais hefyd erthyglau ar gyfer *Ceiniogau'r Werin/Pennies of the People*, cyhoeddiad dathlu 150 Prifysgol Aberystwyth yn 2022. Ar hyn o bryd rwy'n ymchwilio i hanes rhifau 1 a 2 Glan y Môr, y ddau dŷ Sioraidd sy wedi eu gwasgu rhwng yr Hen Goleg a'r Cambria, lle bydd mynedfa newydd yr Hen Goleg. Rwy'n gobeithio ei gael yn barod erbyn yr ailagor yn 2026.

# Proffiliau Cyn-fyfyrwyr

Bob blwyddyn mae ein graddedigion yn mynd ymlaen i gael llwyddiant mawr mewn ystod eang o lwybrau gyrfa ledled y byd. Fel prifysgol rydym yn hynod falch o lwyddiannau ein myfyrwyr wrth i ni wylio ein teulu o raddedigion yn ffynnu yn eu gyrfaoedd dewisol.

Isod mae detholiad o gyflawniadau a llwyddiannau niferus ein graddedigion.

## Jessica Gerken

(BSc Gwleidyddiaeth Ryngwladol ac Astudiaethau Strategol 2013)



Jessica yw Rheolwr Rhaglen Arsyllfa Gogledd Affrica a Sahel yn y Fenter Fyd-eang yn erbyn Troseddau Cyfundrefnol Trawswladol – sefydliad cymdeithas sifil â'i bencadlys yn Genefa sy'n dadansoddi Troseddau Cyfundrefnol Trawswladol, yn darparu arweiniad o ran polisi, yn creu llwyfan i hyrwyddo mwy o drafod a dulliau arloesol o weithio, ac yn meithrin gwytnwch mewn cymunedau yr effeithir arnynt ledled y byd. Mae Jessica yn gweithio i'r Fenter Fyd-eang ers haf 2015, yn gyntaf fel intern, yna'n swyddog cyswllt, yn swyddog polisi, ac yn ddadansoddwr.

"Rwy'n credu'n gryf bod fy ngradd baglor mewn gwleidyddiaeth ryngwladol ac astudiaethau strategol wedi fy mharatoi'n wych ar gyfer fy ngradd Meistr yn Sefydliad y Graddedigion, Genefa, yn ogystal ag ar gyfer swydd ym maes dadansoddi. Aberystwyth, yn fwy na Genefa, wnaeth fy nysgu i feddwl yn feirniadol ac yn annibynnol, i ddeall y gwahanol ysgolion o feddwl ym maes cysylltiadau rhyngwladol, a phenderfynu pa un o'r ysgolion hynny yr wyf yn perthyn iddi. Fe wnaeth yr hyn a ddysgais yn yr adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol roi mantais sylweddol i mi o gymharu â myfyrwyr eraill.

Mae gradd mewn gwleidyddiaeth ryngwladol / cysylltiadau rhyngwladol yn galluogi ystod eang o wahanol feysydd posibl. Mae'n gyd-ddigwyddiad braidd fy mod i yn gweithio ym maes troseddau cyfundrefnol trawswladol, gan y gallwn yn hawdd fod wedi dewis swydd ym maes dyngarwch (fel y gwnaeth llawer o'm cyd-fyfyrwyr) neu wneud PhD a dod yn ysgolhaig."

## Jeffrey Salkilld

(BA Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol 2013)

Mae Jeffrey yn gweithio fel cynhyrchydd ffilm annibynnol llawrydd ac yn gweithio i'w gwmni cynhyrchu newydd Verve Bee Media (www.vervebeemedia.com). Mae newydd ffilmio 'The Green Man' yn Iwerddon, ffilm arswyd llên gwerin a ysgrifennwyd ac a gynhyrchwyd ganddo.



"Roedd Aber yn lle mor hwyl i dyfu fel person ac fel ysgrifennwr. Roedd cymaint o bobl greadigol, a chawsom sawl parti gwisg ffansi. Cwrddais â dau o fy ffrindiau gorau yn Aber. Cefais 2.1 ac roedd y tiwtoriaid yn gwybod mai dyna oedd fy nod ac fe wnaethant helpu i fy ngwthio i gyflawni hynny. Roedd hynny mor werthfawr, ac fe wnaeth fy ngalluogi i fynd ymlaen i wneud MA mewn ysgrifennu ar gyfer y sgrin yn 2018 yn Llundain."

Os hoffech chi gael eich cynnwys yn y rhifyn nesaf, cysylltwch ag alumni@aber.ac.uk

## Abigail Obre

(BA Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol 2005)

Mae Abigail yn Swyddog Gweithredol Marchnata a Chyfathrebu Gofal Iechyd ar gyfer GenesisCare yn Florida, UDA. Yn fuan ar ôl cwblhau ei gradd, sicrhaodd Abigail interniaeth gyda chwmni golygu fideo yn ninas Efrog Newydd. Symudodd yno'n barhaol pan gynigiwyd swydd lawn amser iddi fel cynhyrchydd hysbysebion fferyllol. Mae Abigail wedi treulio llawer o'i gyrfa ym maes marchnata a chyfathrebu gofal iechyd, naill ai yn yr ysbyty neu'n cynghori cleientiaid lleol a chenedlaethol fel partner asiantaeth.

"Fe wnaeth fy ngradd mewn Ysgrifennu Creadigol feithrin fy nghariad at iaith a dysgu i mi sut i roi grym yn y geiriau. Fe'm rhoddodd ar lwybr ym maes hysbysebu gofal iechyd a arweiniodd at weithio ym maes marchnata a chyfathrebu. Mae'r grefft o adrodd straeon yn arbennig o bwysig ym maes oncoleg. Mae'n fy ngalluogi i gael effaith uniongyrchol ar y cleifion y byddaf yn adrodd eu straeon; mae pob un mor unigryw a theimladwy â'r nesaf.






## Kier Olsen

(Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff 2014)

Kier yw sylfaenydd OlsenFitness sydd â'i gyfleuster hyfforddi ei hun ger Penarth, Caerdydd. Ynghyd â dau hyfforddwr arall sy'n gweithio o dan yr un gwerthoedd a chredoau, mae Kier wedi helpu cleientiaid di-ri i gyflawni canlyniadau rhyfeddol a byw bywyd iachach wrth gyflawni eu nodau corfforol. Mae Kier wedi gweithio gydag athletwyr ar lawr gwlad yn ogystal â rhai sy'n cynrychioli eu gwlad yn eu camp benodol. Dros y 10 mlynedd diwethaf mae OlsenFitness wedi cael 9 enwebiad am wobrau gan ennill gwobrau yn lleol ac yn genedlaethol gan gynnwys "Gwobrau Entrepreneuriaid Prydain Fawr". Mae Kier hefyd wedi gweithio gydag actorion a phersonoliaethau teledu eraill o sioeau megis y gyfres boblogaidd o'r Unol Daleithiau 'Orange is the New Black', 'Fargo' a 'The Handmaid's Tale' a'r ffilm lwyddiannus 'Sherlock Holmes'.

Mae'r Adran Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi chwarae rhan ganolog wrth sicrhau bod OlsenFitness yn fusnes mor llwyddiannus ag y mae heddiw, gan gymryd sgiliau perthnasol o seicoleg ymarfer corff, biomecaneg, ffisioleg a maeth a'u defnyddio ym model hyfforddi OlsenFitness.

## Gwobr Menter Aber 2023

Cwmni sy'n ceisio defnyddio coed yng Nghymru i gynaeafu a chreu ychwanegyn naturiol ar gyfer bwyd anifeiliaid a bwyd pobl yw prif enillydd cystadleuaeth flynyddol syniad busnes myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, Gwobr Menter Aber.

Mae tanin yn sylwedd y gellir ei ganfod mewn coed a phlanhigion. Mae ganddo briodweddau gwrthocsidol a gwrthfacteriol naturiol, a gallai chwyldroi'r diwydiant bwyd.

Mae Maria Luisa de la Puerta Fernandez, sy'n astudio am ddoethuriaeth yn Adran y Gwyddorau Bywyd Prifysgol Aberystwyth, wedi bod yn gweithio ers sawl blwyddyn gyda phlanhigion sy'n cynnwys llawer o danin, ac mae hi wrthi'n ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio buddion tanin er lles ystod eang o ddiwydiannau yng Nghymru.

Yn sgil ei syniad busnes arloesol, Tannos, enillodd Fernandez fuddsoddiad busnes gwerth £10,000, wedi'i noddi gan gyn-fyfyrwyr y Brifysgol, a swyddfa am flwyddyn yn ArloesiAber yng nghystadleuaeth Gwobr Menter Aber 2023 y Brifysgol.



Yn ôl Fernandez, sy'n fiotechnolegydd ac yn faethegydd anifeiliaid, roedd hi'n falch iawn o fod wedi ennill Gwobr Menter Aber ac eglurodd ei bod, trwy gyfrwng Tannos, yn bwriadu canolbwyntio ar y llu o ffyrdd ymarferol y gellir defnyddio tanin. Dylem fod yn gwneud llawer mwy o ddefnydd o danin fel adnodd, ac mae'n bwriadu dechrau cynhyrchu tanin ar raddfa ddiwydiannol gan ddefnyddio adnoddau lleol a chynaliadwy. Bydd hi'n canolbwyntio, i ddechrau, ar ddefnyddio tanin fel atchwanegyn wrth gynhyrchu bwydydd cyfansawdd ar gyfer anifeiliaid, â'r nod o leihau allyriadau methan a gwella ansawdd silwair. Y cam nesaf yw darparu tanin fel ateb fforddiadwy, effeithlon, a naturiol i sectorau eraill yng Nghymru - megis y sectorau lledr a diodydd a'r diwydiant fferyllol.

Roedd y chwe thîm o fyfyrwyr a gyrhaeddodd rownd derfynol yr ornest eleni wedi datblygu syniadau yn amrywio o lwyfan gwerthu a rhentu ceir i fusnes hydroponig sydd eisiau tyfu ffrwythau a llysiau mewn dŵr llawn maethynnau heb bridd.

Bu pawb a gyrhaeddodd y rownd derfynol yn cyflwyno eu syniadau i grŵp o 'ddreigiau', llawer ohonynt yn gyn-fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth sydd wedi mynd ymlaen i gael gyrfaoedd llwyddiannus ym myd busnes.

I gael rhagor o wybodaeth am raglen y Brifysgol o ddigwyddiadau sy'n cefnogi gweithgarwch menter busnes ymhlith myfyrwyr, graddedigion a staff, ewch i dudalen we AberPreneurs.

# Diolch i chi



*Lyndsey Stokes, Cyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Alumni*

Mae'n fraint cymryd yr awenau fel Cyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Alumni yn y sefydliad gwirioneddol arbennig hwn - un a sefydlwyd drwy roddion dyngarol, ac ar sylfaen egwyddorion cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant, ynghyd â'r awydd i sicrhau addysg o safon fyd-eang yng Nghymru, dros Gymru.

Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, tuag at bennod olaf Apêl yr Hen Goleg ac at gyflawni'r gwaith i adfer yr adeilad godidog hwnnw er budd y myfyrwyr, y staff, cyn-fyfyrwyr a chymunedau lleol, fe hoffwn ddiolch i chi nawr - fel bob amser - am eich cefnogaeth barhaus.

Mae'ch rhoddion yn darparu sicrwydd i fyfyrwyr Aber pan fyddant mewn angen, yn galluogi myfyrwyr i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd bywyd y brifysgol, yn helpu myfyrwyr i fentro i fyd busnes, yn rhoi bywyd newydd i'r Hen Goleg ac yn rhoi hwb i ymchwil o'r safon uchaf i'r heriau sydd ag arwyddocâd byd-eang sy'n wynebu cymunedau heddiw. Ni allem wneud hyn heboch chi.

Diolch i'n holl roddwyr a restrir yn ein Rhestr Rhoddwyr 2023-24 ac i'r rhai sydd wedi rhoi'n ddienw [www.aber.ac.uk/cy/development/support/thank-you/](www.aber.ac.uk/cy/development/support/thank-you/)

## Cynorthwyo ein myfyrwyr

Mae eich cefnogaeth ddyngarol hael – eich amser a'ch arian – yn cael effaith amhrisiadwy ar y Brifysgol a'n myfyrwyr.

## Gwaith gwirfoddol ein cyn-fyfyrwyr

Ble bynnag y boch chi ar eich llwybr gyrfaol, mae gwirfoddoli'n ffordd wych o roi rhywbeth yn ôl i'ch prifysgol. Dyma'ch cyfle i ysbrydoli, arwain a chynghori'r to nesaf o gyn-fyfyrwyr Aber.

### Pam mae gwirfoddoli'n llesol i'm henaid

*Dr Julie Finch, BSc, PhD Sŵoleg*

Fe wnaeth fy amser yn Aber ddylanwadu ar bob agwedd ar fy nyfodol, felly rwy'n awyddus i gefnogi'r Brifysgol a'r myfyrwyr presennol sut bynnag y gallaf i.

Rwyf wrth fy modd yn clywed am brofiadau ein myfyrwyr presennol ac felly roeddwn yn fwy na pharod i fod yn fentor i un o enillwyr Ysgoloriaeth Peter Hancock eleni. Drwy fod yn fentor (bod yn barod i wrando, i fod yn 'seinfwrdd' ac i gynnig anogaeth ar sail fy mhrofiad ôl-raddedig) fe allaf gadw mewn cysylltiad â bywyd myfyrwyr ac mae'n gwneud i mi deimlo'n ddefnyddiol - rwy'n cael cryn bleser o hynny!

Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Cymdeithas y Cyn-Fyfyrwyr. Gan fod y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal drwy Zoom, caiff aelodau'r Pwyllgor gysylltu o ble bynnag y bôn nhw ac, wrth wneud ymroddiad cymharol fach o ran amser, rwyf wedi mwynhau helpu i drefnu aduniadau a digwyddiadau eraill y Gymdeithas, yn ogystal â diweddaru ein gwefan a chymryd rhan yng ngweithgareddau'r gangen leol. Gwerthfawrogaf y cysylltiadau agos sydd gennym â'r Is-ganghellor ac rwy'n teimlo'n freintiedig wrth gael clywed o lygad y ffynnon am yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r Brifysgol. Drwy gefnogi'r Brifysgol fel hyn, teimlaf fod gennyf gysylltiad gwirioneddol ac, yn fy ffordd fach fy hun, rwy'n helpu i wneud gwahaniaeth!



*Dr Julie Finch gyda'i mentorai Laurie Stevenson*

## Sut mae'ch cyfraniadau yn helpu

Mae eich rhoddion i Aber yn ariannu ysgoloriaethau sy'n newid bywydau ac ymchwil arloesol.

## Caledi Myfyrwyr

Dyfarnwyd Grantiau Caledi i 373 o fyfyrwyr gan y tîm Cyngor ac Arian yn 2022-2023. Mae'r tîm yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael y gefnogaeth iawn er mwyn gallu parhau â'u hastudiaethau heb feichiau ariannol na phryderu am arian. Yn ogystal â'r grantiau hynny, fe ddyfarnwyd hefyd 350 o dalebau siopa gwerth £50.

Mae'r ffigur hwn yn dystiolaeth o'r ansicrwydd a'r anawsterau digynsail sy'n wynebu myfyrwyr heddiw. Mae'r argyfwng costau byw sydd ohoni, a digwyddiadau byd-eang fel y rhyfel yn Wcráin ymhlith y materion sydd wedi effeithio ar allu rhai myfyrwyr i ariannu eu haddysg.

Diolch i'n rhoddwyr hael, roedd y myfyrwyr hyn a fu'n wynebu anawsterau ariannol yn gallu derbyn cymorth ariannol, er mwyn iddynt allu talu rhent, biliau ac unrhyw gostau annisgwyl.

Pan fyddwch chi'n rhoi, fe fyddwch yn helpu i gefnogi'r doniau disgleiriaf – beth bynnag yw'r heriau sy'n eu hwynebu.

Rydym yn ddiolchgar iawn - fel bob amser - am eich cefnogaeth.

## Effaith cymynroddion

Mae gadael rhodd yn eich ewyllys yn ffordd odidog o ddathlu'ch bywyd ac yn ffordd arbennig o gofio Prifysgol Aberystwyth.

Mae llawer o'n llwyddiannau yn y gorffennol wedi deillio o haelioni cymynroddion gan gyn-fyfyrwyr a chyfeillion. Mae'ch rhodd yn ffordd unigryw o ddathlu sefydliad sy'n annwyl i chi, y bobl rydych chi wedi cwrdd â nhw yno, ac fe allai helpu i greu llwyddiannau Aber yn y dyfodol.

Mae cymynroddion o unrhyw faint yn cael effaith barhaol a sylweddol ar waith dysgu ac ymchwil y Brifysgol, yn cyfoethogi bywydau myfyrwyr y dyfodol drwy eu helpu i ddarganfod, arloesi a dylanwadu.

Penderfyniad personol yw'ch ewyllys a gwerthfawrogwn pa mor bwysig yw gofalu am eich teulu a'ch anwyliaid. Pan wyddoch fod y trefniadau priodol wedi'u gwneud i ofalu am eich teulu a'ch anwyliaid, bydd rhodd i Aber yn sicrhau bod eich enw yn parhau y tu hwnt i'ch oes.

Os oes gennych gwestiwn neu os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â'n swyddfa *Alumni* ar alumni@aber.ac.uk neu ffoniwch 01970 621568.

## Cefnogi'r Brifysgol

Rydym yn cydnabod ac yn dathlu'r effaith y mae eich rhoddion wedi'i chael, ac ni fyddai llwyddiant Aber yn bosibl heb eich cefnogaeth. Diolch o galon.

Gall eich rhodd, beth bynnag yw ei faint, ynghyd â chyfraniadau eraill gan gyn-fyfyrwyr a chefnogwyr ledled y byd, wneud gwir wahaniaeth ar draws ein tri maes blaenoriaeth:

- **Cymorth i Fyfyrwyr (CronfaAber)**
- **Apêl yr Hen Goleg**
- **Datblygiad Academaidd ac Ymchwil**

Gallwch gyfrannu rhodd untro neu roi'n rheolaidd ar-lein yn https://www.aber.ac.uk/cy/development/support/give/

Gellir gwneud rhoddion rhyngwladol drwy ein partneriaid, y system SWIFT neu Sefydliad Ysgolion a Phrifysgolion Prydain (BSUF)

Os hoffech drafod eich rhodd yn fwy manwl, cysylltwch â'n swyddfa Cyn-fyfyrwyr ar alumni@aber.ac.uk neu ffoniwch 01970 621568.

# Rhoddion 2022-23 mewn rhifau

Cofrestrwyd gyda'r FUNDRAISING REGULATOR RHEOLEIDDWR CODI ARIAN

**£698,659** wedi ei roi gan gyn-fyfyrwyr a chefnogwyr

**£4,322,395** oddi wrth Ymddiriedolaethau a Sefydliadau

**384** o roddwyr unigol

**311** o roddwyr sy'n rhoi yn rheolaidd

### EIN BLAENORIAETHAU CODI ARIAN

**£467,229** Apêl yr Hen Goleg

**£42,211** Cymorth i Fyfyrwyr (CronfaAber)

**£3,767,856** Datblygiad Academaidd ac Ymchwil

**116** o aelodau presennol sy'n rhoi ar lefel Cylch Cyfrannu'r Is-Ganghellor

Mae Prifysgol Aberystwyth yn elusen gofrestredig (rhif 1145141).

# Hanner can mlynedd o Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu

Y flwyddyn academaidd hon, mae'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu yn dathlu ei hanner canmlwyddiant. Ers hanner canrif, mae'r Adran wedi chwarae rhan bwysig mewn dysgu, addysgu, ymchwil, a chysylltiadau â'r diwydiannau creadigol yng Nghymru a thu hwnt. Ond sut dechreuodd popeth?

**Yr Athro Jamie Medhurst**

*Athro Ffilm a Chyfryngau yn yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu yw'r Athro Jamie Medhurst. Ymunodd â'r Adran ym 1996 fel Darlithydd Astudiaethau Ffilm a Theledu ac mae'n gyn-Bennaeth yr Adran.*



Yng nghyfarfod Cyfadran y Celfyddydau ar 9 Chwefror 1972 y soniwyd gyntaf am y posibilrwydd o sefydlu Adran Ddrama. Dywedodd Grŵp Pynciau'r Gyfadran ei fod yn argymell y dylid hysbysu'r Pwyllgor Polisi a Datblygu bod y Gyfadran yn gefnogol iawn i ddatblygu Drama yn y Coleg. Aeth ymlaen i argymell penodi dau ddarlithydd Drama, un ohonynt i fod yn gyfrifol am addysgu cyfrwng Cymraeg, ynghyd â dau Diwtor Ymweld neu Gymrodyr mewn Actio a Chynhyrchu. Mewn ymateb, nododd Pwyllgor Datblygu a Pholisi'r Brifysgol yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 1972 ei bod yn bwysig i'r Coleg sefydlu Adran Ddrama ar fyrder er mwyn gwneud defnydd cyflawn o Theatr y Werin. Dywedodd y dylai'r Adran hon gael statws tebyg i'r adrannau Cerddoriaeth a Chelf. Yr hyn sy'n ddiddorol ei nodi yw bod y Coleg (fel yr oedd bryd hynny) a'r Prifathro, Syr Goronwy Daniel, yn arbennig yn awyddus i greu cysylltiadau o'r cychwyn cyntaf rhwng yr adran newydd a Theatr y Werin ar Gampws Benglais – campws a oedd yn prysur ehangu.

Mewn cyfarfod o'r Senedd ar 15 Mawrth 1972, nododd y Prifathro fod ymdrechion yn cael eu gwneud i godi arian i ddatblygu Drama yn y Coleg. Mae'n amlwg bod pethau wedi symud yn gyflym, oherwydd erbyn cyfarfod Pwyllgor Staffio'r Coleg ym mis Mehefin 1973 roedd 13 cais am swydd Cyfarwyddwr Drama a Chymrawd Harlech[1] wedi dod i law. Cafodd 6 ymgeisydd eu cyfweld, a phenodwyd Dr David John Edmunds gan y Coleg.

Agorodd yr Adran Ddrama ym mis Medi 1973 yn ei chartref yn hen Ganolfan yr Ysgubor ar Heol Alexandra (lle mae cwmni Cyfreithwyr Morris and Bates ac eraill bellach). Yn ôl cofnod cynnar yn y prosbectws, nod yr adran oedd rhoi sylfaen gadarn mewn hanes theatr a llenyddiaeth ddramataidd Ewropeaidd, a hyfforddiant sylfaenol mewn actio ac agweddau technegol. Y bwriad oedd cynnig Drama yn bwnc Rhan 1 (blwyddyn gyntaf) yn unig, ond trwy ddyfalbarhad John, a chyda chefnogaeth cydweithwyr, er enghraifft Emily Davies ac Elan Closs Stevens, sefydlwyd cynllun anrhydedd gyfun, ac yna gradd anrhydedd sengl ym 1978.



*Eugene Ionesco, Emily Davies a John Edmunds, gyda'r myfyrwyr Kevin Graal, Gay Wardle, a Nick Malicka*

1 Cwmni HTV oedd deiliad trwydded ITV i Gymru a gorllewin Lloegr ar y pryd, ac roedd Bwrdd Cymru HTV wedi cytuno i roi grant o £2500 y flwyddyn am 3 blynedd o 1 Mehefin 1973 i benodi Cymrawd Harlech mewn Drama.



*The Fall and Redemption of Man*

Mae'r Adran wedi rhoi pwyslais o'r cychwyn ar waith ymarferol a chynyrchiadau. Y cyntaf o'r rhain oedd y felodrama Fictoriaidd, *Lady Audley's Secret*, a berfformiwyd yn Theatr y Werin ar 29 a 30 Tachwedd ac 1 Rhagfyr 1973. Ymhlith cynyrchiadau cynnar eraill roedd *The Fall and Redemption of Man* a gyfarwyddwyd gan Emily Davies a *The Chairs* gan Eugene Ionesco. Daeth yr awdur i weld y perfformiad hwnnw.



U.C.W. DRAMA DEPARTMENT

present their first production

LADY AUDLEY'S SECRET

a Victorian Melodrama first performed in 1863

With Live Music played upon the Pianoforte, Flute and Fiddle

** What Lies at the Bottom of the Old Well? **

** What grim depths lurk beneath the gay charm of Lady Audley? **

** See the Awful Fate that befalls the Drunken Gamekeeper **

** See the Country Dancers perform their Merry Jig **

** See Wickedness punished and Virtue prevail **

See all this at THEATR Y WERIN

THIS WEEK

Thursday, 29th November

Friday, 30th November

Saturday, 1st December

Preceded by a reading of FLOW, a Quintet for Voices

by Gabriel Josipovici,

first heard at this year's Edinburgh Festival, at 7.30.

**************************

O'r dechreuad diymhongar ond uchelgeisiol hwn, tyfodd yr hyn a oedd ar un adeg yn un o adrannau mwyaf y Brifysgol ac un o'r adrannau mwyaf o'i bath yng ngwledydd Prydain. Bu addysgu ac ymchwil cyfrwng Cymraeg yn elfen allweddol yn yr adran ers y dechrau, a chyflwynwyd blwyddyn gyntaf cyfrwng Cymraeg ym 1975. Ym 1996 cyflwynwyd cynllun gradd newydd mewn Astudiaethau Ffilm a Theledu, a dilynwyd hynny gan Senograffeg/ Dylunio Theatr, Astudiaethau Perfformio, Astudiaethau Cyfryngau a Chyfathrebu, ac yn fwy diweddar, Ysgrifennu ar gyfer Darlledu, Cyfryngau a Pherfformio, a Gwneud Ffilmiau.

Ers 2000 mae'r Adran wedi ymgartrefu yn yr Adeilad Parry-Williams pwrpasol ar Gampws Penglais, er bod Theatr y Castell a Neuadd Joseph Parry yn y dref hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer addysgu ac ymchwil adrannol. Bellach mae ganddi tua 35 o staff, a thua 550 o fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig. Yn ogystal â dysgu ac addysgu, mae gan yr adran ddiwylliant ymchwil ffyniannus a chysylltiadau rhagorol â sefydliadau allanol yn y maes.

Mae'r heriau i'r diwydiannau diwylliannol a chreadigol yn niferus, o'r tu allan i addysg uwch ac oddi mewn. Mae'r adran yn barod i wynebu'r heriau hynny a pharatoi ei graddedigion trwy drosglwyddo'r galluoedd a'r doniau angenrheidiol i ffynnu yn y dyfodol – ac i wneud gwahaniaeth yn y byd, yn union fel y gwnaeth ers 1973.



Meddai'r Pennaeth Adran presennol, Dr Kim Knowles, a ymunodd â'r Brifysgol yn Ddarlithydd Astudiaethau Ffilm yn 2011: 'Rwy'n falch o fod yn arwain adran sydd â hanes cyfoethog a thraddodiad cryf o arbrofi creadigol a mentro. Dydy hi ddim yn amser hawdd i fod yn llywio trwy ddyfroedd garw Addysg Uwch, ond yng nghwmni tîm mor dalentog o athrawon ac ymchwilwyr, mae'n gyffrous edrych at y dyfodol.'

## Penodiadau

**Yr Athro Jon Timmis** – Is-Ganghellor

**Meri Huws** – Cadeirydd Cyngor Prifysgol Aberystwyth

**Yr Athro Angela Hatton** – Dirprwy Is-Ganghellor dros Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesedd

**Simon Crick** – Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio

**Lyndsey Stokes** – Cyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Alumni

**David Wilson** – Cyfarwyddwr Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth

**Yr Athro Catrin Webster** – Pennaeth yr Ysgol Gelf

## Anrhydeddau 2023

**Derbyniodd yr unigolion canlynol Gymrodoriaeth Er Anrhydedd yn rhan o seremoniau graddio yn 2023:**

**Tina Evans**, awdur blog ac areithwraig lawn ysbrydoliaeth 'Human on Wheels', a chyflwynydd teledu (cyn-fyfyriwr – Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, 2006)

**Ann Griffith**, Arweinydd Cymru a'r Byd yn Eisteddfod Genedlaethol 2022 (cyn-fyfyriwr – Addysg, 1970)

**Ian Gwyn Hughes**, Pennaeth Cysylltiadau Cyhoeddus Cymdeithas Bêl-droed Cymru a chyn-ohebydd pêl-droed BBC Cymru (cyn-fyfyriwr – Hanes a Gwleidyddiaeth Ryngwladol, 1980)

**Yr Athro Dato' Dr Rahmat bin Mohamad**, Athro yn y Gyfraith ym Mhrifysgol Dechnolegol MARA, Malaysia (cyn-fyfyriwr – doethuriaeth Gyfraith, 2001)

**Kate O'Sullivan**, milfeddyg gyda Mill Referrals, Cyfarwyddwr Milfeddygon Ystwyth a gwirfoddolwr gyda Chymdeithas Filfeddygol Anifeiliaid Bach Prydain

**Helen Prosser**, Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (cyn-fyfyriwr – Cymraeg, 1983)

**Phil Thomas**, milfeddyg, Cyfarwyddwr Milfeddygon Ystwyth a Chyfarwyddwr Iechyd Da

**Ben Thompson**, Rhaglennydd Ffilmiau Byrion yng Ngŵyl Tribeca, Efrog Newydd (cyn-fyfyriwr – Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, 2002)

# Er Cof

Cofio'r rhai a fu farw rhwng Awst 2022 a Gorffennaf 2023

*Aelod o Gymdeithas y Cyn-fyfyrwyr

### Cymrodyr

**Baba**, Dato' Zawiyah (Llyfrgellyddiaeth, 1973), bu farw Mai 2023*

**Harries**, Yr Athro John Edward, bu farw Rhagfyr 2022

**Hogg OBE**, Mr Francis Norry, bu farw Hydref 2022

**Morris KG PC KC**, Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd John, (Y Gyfraith, 1952), bu farw Mehefin 2023*

### Staff

**Bache**, Mr Nick, bu farw Ebrill 2023

**Barker**, Yr Athro Emeritws Martin John, bu farw Medi 2022

**Davies**, Mr Benjamin Lewis, bu farw Mawrth 2023

**Edmunds**, Dr John, bu farw Mai 2023

**Ghuman**, Yr Athro Emeritws Paul Avtar Singh, (Addysg, 1994), bu farw Awst 2022

**Linklater**, Yr Athro Emeritws Andrew, bu farw Mawrth 2023

**Ovendale**, Yr Athro Ritchie, bu farw Awst 2022

**Provan**, Dr Jim, bu farw Rhagfyr 2022

**Kittle**, Olga, bu farw Tachwedd 2022

**Roland**, Janet, bu farw Ebrill 2023

**Saycell**, Mr Jeff, bu farw Rhagfyr 2022

### Cyn-fyfyrwyr a chefnogwyr

**Allen**, Mr David Luke (Llenyddiaeth Saesneg, 2006), bu farw Rhagfyr 2022*

**Bayliss**, Dr Deryck David (Daeareg, 1953), bu farw Hydref 2022

**Bottoms**, Mr David John (Sŵoleg, 1981), bu farw Medi 2022

**Brindley**, Dr Graham (Mathemateg Gymhwysol, 1971), bu farw Rhagfyr 2022

**Clarke**, Mr Charles Nicholas (Addysg, 1979), bu farw Medi 2022

**Collins**, Mrs Agnes, née Riley (Almaeneg, 1952), bu farw Medi 2022

**David**, Miss Eilonwy Ann (Llaethyddiaeth, 1945), bu farw Rhagfyr 2022

**Dean**, Mr Bill (Botaneg a Sŵoleg, 1964), bu farw Ionawr 2023*

**Dzeryn**, Miss Kirsten Barbara, née Green (Cysylltiadau Rhyngwladol, 2005), bu farw Mai 2023

**Elliott**, Ms Valerie Jean (Ffrangeg, 1978), bu farw Chwefror 2023

**Groves**, Dr Nicholas William (Cerddoriaeth (BMus), 1977), bu farw Mehefin 2023*

**Hammond**, Mrs Deborah Noelyne (Gwleidyddiaeth Ryngwladol a'r Trydydd Byd, 2012), bu farw Ionawr 2023

**Hollows**, Mr Jack William Llewellyn (Astudiaethau Ffilm a Theledu, 2002), bu farw Medi 2022

**Hughes**, Dilwyn Ellis (Ffrangeg a Rwsieg, 1976), bu farw Rhagfyr 2022

**Jacquet**, Mrs Cathy Elisabeth Anne, née Hull (Almaeneg, 1974), bu farw Mai 2023*

**Lawrence**, Dr Thomas Rhidian (Ffiseg, 1962), bu farw Gorffennaf 2023

**McMillan**, Dr Ian Kenneth (Daeareg, 1974), bu farw Mehefin 2023

**Pritchard**, Dr William Hubert (Cemeg, 1957), bu farw Mai 2023*

**Rowley**, Yr Athro Gwyn (Daearyddiaeth (Celfyddydau), 1961), bu farw Mai 2023*

**Thornley**, Mr David James Falklan (Y Gyfraith, 1987), bu farw Awst 2022

**Trice**, Mr John Edward, bu farw Rhagfyr 2022*

**Valentine**, Mr Matthew (Hanes, 1995), bu farw Tachwedd 2022*

**Whittaker**, Dr John Eustace (Daeareg, 1967), bu farw Gorffennaf 2023*

**Wilkinson**, Ms Delwen Eirlys, née Williams (Rwsieg a Ffrangeg, 1975), bu farw Mehefin 2023

**Williams**, Mr David Hugh (Ystadegau, 1969), bu farw Hydref 2022

Os hoffech roi gwybod am farwolaeth un o raddedigion Prifysgol Aberystwyth, rhowch wybod I ni trwy anfon e-bost at: alumni@aber.ac.uk

# Llwyddiannau

## Myfyrwyr

Enillwyr o blith y myfyrwyr yng Ngwobrau Addysgu, Dysgu a Phrofiad Myfyrwyr Undeb Myfyrwyr Aberystwyth 2023 oedd: **Lilly Casey-Green** (Aelod Staff Myfyrwyr y Flwyddyn), **Muhammad Naveed Arshad** (Myfyriwr-fentor y Flwyddyn), **Andrine Vangberg** (Myfyriwr-wirfoddolwr y Flwyddyn), **Cai Phillips** (Hyrwyddwr Diwylliant Cymreig), **Zoe Hayne** (Cynrychiolydd Academaidd y Flwyddyn) a **Dax Aziraphale FitzMedrud** ac **Elena Bloomquist** (Gwobr Hyrwyddwr Rhyddid)

Ennillodd myfyrwyr ffilm a theledu - **Elena Bloomquist**, **Juliette Daum**, **Justas Kavaliauskas** a **Lucy Thomas** - gystadleuaeth adrannol i dreulio pedwar diwrnod yng Ngŵyl enwog Tribeca yn Efrog Newydd, a ariannwyd gan gyfraniadau cyn-fyfyrwyr i Gronfa Aber.

Yng Ngwobrau Hybu'r Gymraeg y Brifysgol 2023, enillodd **Ffion King** y wobr am Astudio trwy'r Gymraeg, a dyfarnwyd **Cai Phillips** yn Bencampwr y Gymraeg.

## Staff

Enillwyr o blith y staff yng Ngwobrau Addysgu, Dysgu a Phrofiad Myfyrwyr Undeb Myfyrwyr Aberystwyth 2023 oedd: **Andrew Baldwin** o'r Ysgol Gelf (Darlithydd y Flwyddyn), **Dr Helen Miles** o'r Adran Gyfrifiadureg (Tiwtor Personol y Flwyddyn), **Yr Athro Luis Mur** o Adran y Gwyddorau Bywyd (Arolygydd y Flwyddyn), **Helen Williams** (Aelod o staff Ategol/Gwasanaeth y flwyddyn) ac **Abby Monk** o'r Adran Hanes a Hanes Cymru (Athro Ôl-raddedig y Flwyddyn).

Enillodd **Anna Udalowska,** Tiwtor Dysgu Gydol Oes yn yr Adran Seicoleg, wobr Cwrs Nodedig Prifysgol Aberystwyth 2023 am ei modiwl 'Gwyddor Lles'. Rhoddwyd canmoliaeth uchel yn y gystadleuaeth eleni i'r canlynol: **Dr Alexander Taylor** o'r Adran Seicoleg am y modiwl 'Niwrowyddoniaeth Ymddygiadol'; **Dr Kathy Hampson** o Adran y Gyfraith a Throseddeg am y modiwl 'Troseddau a Chyfiawnder Ieuenctid'; **Dr Lara Kipp** o'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu am y modiwl 'Drama Gyfoes' a **Panna Karlinger** o'r Ysgol Addysg am y modiwl 'Gwneud Synnwyr o'r Cwricwlwm'.

Dyfarnwyd Gwobr flynyddol Prifysgol Aberystwyth am Effaith Ymchwil Eithriadol yn y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, i'r **Athro Ryszard Piotrowicz** o Adran y Gyfraith a Throseddeg am ei waith ardderchog ar gyfraith a pholisi yng nghyswllt masnachu pobl. Dyfarnwyd y Wobr am Effaith Ymchwil Eithriadol mewn Gwyddoniaeth i **Michael Christie**, Athro Economeg Amgylcheddol ac Ecolegol yn Ysgol Fusnes Aberystwyth am ei gyfraniad i adroddiad o bwys ar gyfer y Llwyfan Polisi Gwyddoniaeth Rynglywodraethol ar Wasanaethau Bioamrywiaeth ac Ecosystem (IPBES).

Bydd **yr Athro Qiang Shen,** Dirprwy Is-Ganghellor ac ymchwilydd sy'n arwain y byd ym maes deallusrwydd cyfrifiadurol, yn derbyn Gwobr Arloesi Systemau Niwlog 2024 yng Nghyngres Byd-eang Cymdeithas Deallusrwydd Gyfrifiadurol IEEE.

Etholwyd tri academydd o Aberystwyth yn Gymrodyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn 2023: **Yr Athro Andy Evans**, Pennaeth Adran Ffiseg y Brifysgol, **Hazel Davey** Athro Bioleg a **Helen Roberts** Athro Daearyddiaeth Ffisegol a Chyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil.

Etholwyd **Rhys Jones,** Athro Daearyddiaeth Ddynol yn yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear yn Gymrawd Academi'r Gwyddorau Cymdeithasol.

**Dr Patricia Shaw,** Uwch-ddarlithydd yn yr Adran Gyfrifiadureg, oedd enillydd Gwobr Gymunedol Roboteg a Systemau Ymreolaethol y DU 2023.

**Mererid Hopwood**, Athro Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, oedd enillydd Medal Farddoniaeth Gŵyl y Gelli 2023.

Mae'r Darlithydd mewn Ysgrifennu Creadigol (Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd) a'r bardd arobryn, **Eurig Salisbury,** wedi cael ei benodi'n Fardd y Dref yn Aberystwyth, ac ef fydd y person cyntaf erioed i gyflawni'r swydd hon.

Yng Ngwobrau Hybu'r Gymraeg y Brifysgol 2023, dyfarnwyd gwobrau Dysgwr Disglair i **Kate Barber** a **Dr Martine Garland**, **Abigail Crook** oedd enillydd gwobr Hyrwyddo'r Gymraeg yn y Gweithle a dyfarnwyd Gwobr Arbennig y Panel i'r **Athro Elizabeth Treasure** am ei chefnogaeth allweddol i'r Gymraeg yn ystod ei chyfnod fel Is-Ganghellor.

## Cyn-fyfyrwyr

Dyfarnwyd MBE i **Sue Crowley,** rheolwr llyfrgelloedd Gwlad yr Haf, yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd 2023 am ei chyfraniad dros gyfnod hir i wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus.

Llongyfarchiadau i'r cyn-fyfyriwr **Caryl Lewis** (MA Ysgrifennu: Proses ac Ymarfer, 2001). Ei nofel, DRIFT, oedd enillydd cyntaf gwobr newydd Waterstones: Llyfr y Flwyddyn Cymru 2022.

**Ernie Richards** (Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid, 2015) oedd Pencampwr Da Byw y Flwyddyn yng Nghymru 2022 yng Ngwobrau NFU Cymru/NFU Mutual.

**Katie-Rose Davies** (Amaethyddiaeth, 2012) enillodd Wobr Ffermwraig y Flwyddyn 2023 yng Ngwobrau Marts the Heart 2022 y *Farmers Guardian*.

**Siôn Eilir Roberts** (Amaethyddiaeth, 2017) enillodd Wobr Arwerthwr Newydd y Flwyddyn yn y *Farmers Guardian* Marts the Heart Awards 2022

Derbyniodd **Llio Rhydderch** (Cymraeg, 1960), sy'n cael ei chydnabod fel un o brif delynorion y Delyn Deires Gymreig, Gymrodoriaeth er Anrhydedd Prifysgol Bangor am ei gwasanaeth i Gerddoriaeth.

Llongyfarchiadau i **Octavia Madden** (Celfyddyd Gain, 2023) ar ennill gwobr Dewis Ymwelwyr Oriel Thelma Hulbert 2023 am ei gwaith celf sy'n darlunio Aberystwyth - 'Colour of the Harbour'.

# Digwyddiadau ac aduniadau cyn-fyfyrwyr

Bob blwyddyn rydym yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau ar y campws, ledled y DU ac yn rhyngwladol. Mae'r digwyddiadau hyn yn rhoi cyfleoedd gwych i ailgysylltu â hen ffrindiau, ehangu eich rhwydwaith o 'gyn-fyfyrwyr Aber' a chael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau diweddar y Brifysgol.

## Aduniad Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr, Mehefin 2023

Daeth cyn-fyfyrwyr, cyfeillion, cefnogwyr, staff a myfyrwyr ynghyd i ddathlu pen-blwydd y Brifysgol yn 150 oed a Chymdeithas y Cyn-fyfyrwyr yn 130 oed. Roedd hwn yn gyfle gwych i nodi cerrig milltir, hel atgofion gyda hen ffrindiau a chael gwybod am ddatblygiadau newydd mewn penwythnos llawn hiraeth.



## Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, Awst 2023

Yn sgil cyflwyno cais llwyddiannus i Gronfa 'JDR a Gwyneth Thomas' gan dîm o fyfyrwyr o Adran y Gwyddorau Bywyd, sef Gwen Jenkins, Tara Taylor, Mari Thomas a Lloyd Warburton, trefnwyd arddangosfa wyddoniaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan.




Cynhaliodd y myfyrwyr weithdai gwyddonol ym Mhentref Gwyddoniaeth yr Eisteddfod a oedd yn cynnwys creu microbau a firysau, gweithgaredd imiwnedd poblogaeth ar ddefnyddio brechiadau, yn ogystal ag arddangos gwaith ymchwil y Brifysgol. Roedd cyfle hefyd i drafod ymchwil a dysgu o fewn yr adran gyda Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi, Llywodraeth Cymru.

Pleser oedd cyfarfod â theulu'r Athro Ron Thomas, ei ferch Gaenor Taffinder a'i wyres Rhiannon. Sefydlodd JDR y gronfa er cof am ei rieni, ar ôl i'w dad astudio Amaethyddiaeth yn Aberystwyth dros ganrif yn ôl.



# Diwrnod y Sylfaenwyr




### Aberystwyth, Hydref 2023

Dechreuodd ein digwyddiadau Diwrnod y Sylfaenwyr gyda'r orymdaith draddodiadol ar hyd y Promenâd i "gicio'r bar", ac yna brecwast i ddathlu ar Gampws Penglais. Mae'r digwyddiad blynyddol yn coffáu'r diwrnod y croesawodd y Pennaeth Thomas Charles Edwards y 25 myfyriwr cyntaf i'r Hen Goleg ym mis Hydref 1872.

### Caerdydd, Hydref 2023

Parhaodd cyn-fyfyrwyr a chefnogwyr â dathliadau Diwrnod y Sylfaenwyr yn yr Eglwys Norwyaidd, Bae Caerdydd yng nghwmni'r siaradwr gwadd, a'r cyn-fyfyriwr, Meri Huws.



## Malaysia, Rhagfyr 2023

Hoffem ddiolch o galon i'n holl gyn-fyfyrwyr a chyfeillion a ddaeth i'n derbyniad yng Nghlwb Golff Kuala Lumpur. Roedd hwn yn gyfle gwych i rannu a hel atgofion. Diolch i Glwb Cyn-fyfyrwyr Malaysia am eu cefnogaeth barhaus.

Gyda dros 100,000 o gyn-fyfyrwyr yn byw ledled y byd, mae'r tîm Datblygu a Chysylltiadau Alumni yma i'ch helpu i gadw mewn cysylltiad â'ch gilydd. Os ydych yn ystyried trefnu aduniad, gallwn eich cefnogi drwy eich helpu i gysylltu â ffrindiau coll.

Byddem yn falch iawn o glywed oddi wrthych chi a'ch helpu i gysylltu â phobl.
alumni@aber.ac.uk

# Gydag ychydig o help gan ein ffrindiau.

Bydd llawer o ddarllenwyr eisoes yn gwybod am hyn ond, nôl yn 2015, cawsom wybod am gerdyn post a oedd ar werth ar eBay. Oherwydd ei gysylltiad â'r Brifysgol y teimlad oedd bod rhaid i ni ei brynu.



Doedd dim cyllideb benodol ar gyfer archifau, felly fe sefydlwyd cronfa yn gyflym gyda chyfraniadau gan lond llaw o gydweithwyr. Yn y diwedd, dim ond tua £13 a phris postio oedd y cerdyn post a oedd yn cynnwys llun o Iris de Freitas. Serch hynny, sefydlwyd y gronfa archifau. Mae wedi tyfu'n raddol byth ers hynny, diolch i gydweithwyr a chyn-fyfyrwyr hael, ynghyd â ffioedd achlysurol Archifydd y Brifysgol sy'n rhoi sgyrsiau i grwpiau lleol.

Mae'r gronfa wedi ein cynorthwyo i ofalu am ein casgliadau ac i sicrhau eu bod ar gael ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rydym yn defnyddio unrhyw roddion i wneud gwaith cadwriaethol, trwy atgyweirio eitemau sydd wedi'u difrodi neu sy'n fregus; i gadw eitemau, trwy brynu'r deunydd pacio amddiffynnol addas; ac weithiau i brynu eitemau perthnasol i'w hychwanegu at y casgliad. Hoffem ddangos rhai enghreifftiau i chi.

Bu modd i ni dalu am waith cadwriaethol gan gydweithwyr yn y Llyfrgell Genedlaethol ar ein ffotograff o Gyngres Undeb Cynghrair y Cenhedloedd; cafodd y gwreiddiol ei atgyweirio a'i becynnu fel y gellir ei drin yn ddiogel a chreu copi digidol a ffisegol.




Rydym hefyd wedi gallu gwneud gwaith cadwriaethol ar gasgliadau sy'n bodoli eisoes. Tan yn ddiweddar, roeddwn i wastad wedi meddwl bod cofnodion Coleg Amaethyddol Cymru (a unodd ym 1995 â Phrifysgol Cymru Aberystwyth fel yr oedd ar y pryd) wedi eu colli. Llynedd gwelwyd nad oedd hyn yn wir, diolch i staff a ymunodd â'r Brifysgol o'r Coleg Amaethyddol.



Llwyddwyd i adfer y deunydd o Edward Llwyd, ei symud i'r archif yng Ngogerddan, a dechrau ystyried rhoi rhyw fath o drefn arno. A bu hynny'n amserol iawn, wrth i'r Adran Astudiaethau Gwybodaeth guro ar y drws, yn chwilio am brosiect catalogio i'w myfyrwyr Archifau a Rheoli Cofnodion. Mae'n brosiect sy'n rhan bwysig o'r cwrs proffesiynol, ac mae'n wych gallu defnyddio casgliad mewnol. Mae'r myfyrwyr wedi costio'r deunydd pacio archifol a gorffen eu prosiect gan gwblhau catalog a chasgliad taclus.




Rydym hefyd wedi gallu prynu rhai eitemau, er enghraifft yr albwm hwn o ffotograffau Undeb y Myfyrwyr o sesiwn 1966-67. Mae'r albwm yn dangos bywyd academaidd, chwaraeon a chymdeithasol myfyrwyr Aber ganol y 60au. Sut aeth hwn erioed o Aber, pwy a ŵyr.




Mae'r gronfa hefyd wedi ein rhoi mewn sefyllfa i fentro i gyffro gwneud cynnig mewn arwerthiant 'go iawn'. I hysbysebu digwyddiad yn y Neuadd Fawr ym mlwyddyn canmlwyddiant y Brifysgol, digwyddiad a drefnwyd gan bwyllgor digwyddiadau Undeb y Myfyrwyr, roedd y poster David Bowie hwn ar werth gan gwmni o arwerthwyr yn Sheffield. Eitem wych o'r dyddiau cyn i'r 'Person Harddaf yn y Byd' fod yn rhy ddrud i'w gael i Aber.

Allwn ni ddim gwneud yr hyn a wnawn heb gefnogaeth cyfeillion a chydweithwyr. Mae cymorth ariannol yn wych, ond yr un mor bwysig yw pobl sy'n gofalu am gofnodion a gwrthrychau, gan nodi pethau y credant a ddylai fod yn ein meddiant, a thynnu ein sylw at bethau sydd ar werth.

Cofrestrwyd gyda'r FUNDRAISING REGULATOR RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN

# Ffurflen Rhoddi

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

## FY MANYLION

Enw ..................................................

Cyfeiriad ..................................................

..................................................

..................................................

E-bost ..................................................

Ffôn ..................................................

## HOFFWN WNEUD CYFRANIAD A CHEFNOGI

- ☐ Cronfa Aber: Cymorth i Fyfyrwyr
- ☐ Apêl yr Hen Goleg
- ☐ Y Gronfa Ymchwil
- ☐ Lle bynnag y bo'r angen pennaf

☐ £25 ☐ £50 ☐ £250 ☐ £500

Swm dewisol £ ☐

Rwyf yn amgáu:

siec yn daladwy i:

- ☐ 'Cronfa Ddatblygu Prifysgol Aberystwyth'
- ☐ taleb CAF
- ☐ Hoffwn gyfrannu'n ddienw

Pe hoffech gefnogi'r Brifysgol trwy ddull arall, cysylltwch a ni trwy ffonio 01970 621568 i drafod yn fanylach

Diolch!

## FFYRDD O ROI

**Rhoi ar-lein:** alumni.aber.ac.uk/cy/rhoddi

**Rhoi dros y ffôn:** 01970 622083

**Anfonwch eich ffurflen rhoddi atom i'r cyfeiriad hwn:**
Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni, Prifysgol Aberystwyth
Blwch Post 2, Aberystwyth. SY23 2AX

## YSTYRIWCH ADAEL RHODD YN EICH EWYLLYS

Byddai gadael rhodd yn eich Ewyllys yn gyfle i fuddsoddi yn y dyfodol a chwarae rhan hanfodol i gefnogi myfyrwyr a gwaith ymchwil.

- ☐ Hoffwn ragor o wybodaeth ynglŷn â gadael rhodd yn fy Ewyllys
- ☐ Rwyf eisoes wedi addo rhodd i Brifysgol Aberystwyth yn fy Ewyllys

## RHODD CYMORTH: GALLWN ADENNILL 25C O DRETH AM BOB £1 A ROWCH – HEB UNRHYW GOST YCHWANEGOL I CHI

giftaid it

Hoffwn i chi adennill treth ar bob rhodd a wnaed gennyf i Brifysgol Aberystwyth yn y bedair blynedd ddiwethaf, a phob rhodd a wnaf o ddyddiad y datganiad hwn ymlaen, tan i mi eich hysbysu yn wahanol. Rwyf yn drethdalwr yn y Deyrnas Gyfunol a byddaf yn talu digon o Dreth Incwm a/neu Dreth Enillion Cyfalaf gogyfer â'm holl roddion elusennol ymhob blwyddyn dreth. Deallaf y byddaf yn gyfrifol am dalu'r gwahaniaeth os na fydd fy nhrethi'n ddigon i dalu gofynion Rhodd Cymorth.

Llofnod ____________________ Dyddiad ____________

## DIOGELU DATA A PHREIFATRWYDD

Mae'ch preifatrwydd yn hollbwysig i ni. Bydd Prifysgol Aberystwyth yn defnyddio eich data personol i brosesu eich rhodd ac efallai yr anfonwn wybodaeth berthnasol atoch ynglŷn â chyn-fyfyrwyr Aber. Darllenwch ein Datganiad Diogelu Data a Phreifatrwydd llawn: **www.aber.ac.uk/cy/development/dataprotection** neu e-bostiwch **alumni@aber.ac.uk** i ddiweddaru eich dewisiadau.

**Rhoi ar-lein:**
www.aber.ac.uk/cy/development/support/give/

Mae Prifysgol Aberystwyth yn elusen gofrestredig: 1145141